Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Y wybodaeth ddiweddaraf am Berfformiad y Cynllun Corfforaethol: Ionawr - Mawrth 2023

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno perfformiad y cyngor yn erbyn themâu ei Gynllun Corfforaethol a meysydd llywodraethu rhwng Ionawr a Mawrth 2023, yn cynnwys ein defnydd o egwyddor Datblygu Cynaliadwy, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 2 |
| Crynodeb o'r sefyllfa | 4 |
| Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad | 7 |
| Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl | 8 |
| Sir Ddinbych ffyniannus | 18 |
| Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar | 28 |
| Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu | 43 |
| Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well | 57 |
| Sir Ddinbych mwy gwyrdd | 66 |
| Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal | 76 |
| Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | 86 |
| Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda | 94 |

# Manylion cyswllt a gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth, neu i roi eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**Drwy e-bost:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Drwy'r post:**

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad,
Cyngor Sir Ddinbych,
Blwch Post 62
Rhuthun,
LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a geir yn Gymraeg.

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Llais y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Crynodeb o’r sefyllfa

Mae Swyddogion Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi arwain trafodaethau gydag aelodau'r Cabinet, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, rheolwyr a staff ar bob lefel, i bennu'r set strategol gywir o fesurau a gweithgarwch i'w monitro trwy'r adroddiadau perfformiad hyn. Roedd yr ymarfer hwn hefyd yn cynnwys cynllunio gwasanaeth am y flwyddyn i ddod, i sicrhau bod ein gwasanaethau i gyd yn gweithio’n gydlynol fel ‘un cyngor’ a nodi eu cyfraniad at naw thema’r Cynllun Corfforaethol. Rydym hefyd wedi cynnwys ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn y gwaith hwn a nodi dangosyddion cenedlaethol i gefnogi meincnodi. Yn ein hadroddiad blaenorol, rydym wedi ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy. Cytunwyd ar sail y fframwaith gan y Cabinet a’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Mawrth 2023, ac mae’n sail i’r adroddiad hwn ar gyfer Ionawr i Mawrth 2023. Mae’r penodau isod yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod diwethaf o dan themâu ein Cynllun Corfforaethol newydd, gyda chrynodeb o newyddion cyfrannol ac eitemau pwyllgor. Bydd yna agweddau sy’n dal angen eu datblygu a rhai bylchau i’w llenwi; bydd rhai o’r rhain yn cael eu cadarnhau mewn pryd ar gyfer ein cyfarfod nesaf, mae eraill yn fwy cymhleth a byddant angen eu cwmpasu ymhellach. Bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i ni gadarnhau trefniadau llywodraethu presennol neu sefydlu rhai newydd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol.

Yn gyffredinol, gallwn weld drwy’r adroddiad hwn bod ein thema Tai eisoes wedi’i sefydlu yn dilyn ein Cynllun Corfforaethol blaenorol. Rydym yn ymwybodol ac eisoes yn ymateb i fynd i’r afael â gwendidau yn ein perfformiad, yn arbennig mewn perthynas â digartrefedd ble nad yw canlyniadau i’n cymunedau mor gadarnhaol ag yr ydym yn dymuno ac yn dyheu iddynt fod. Mae twf economaidd yn achosi pryder, a hoffem weld cynnydd mewn incwm a thâl. Mae tlodi yn effeithio’n negyddol ar les ac yn cymell anghydraddoldeb (fel y gwelir yn Asesiad Lles Conwy a Sir Ddinbych). Mae gwella deilliannau i’n preswylwyr yn y cyswllt hwn yn ffocws sylweddol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd hwn. Bydd datblygu strategaeth economaidd ar gyfer Sir Ddinbych yn garreg filltir bwysig a bydd ei hangen yn fuan yn y Cynllun Corfforaethol hwn er mwyn i ni allu dechrau gweithredu a mesur newid. O ran Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar, bydd angen gosod trothwy ar gyfer cymaint o fesurau â phosibl i’n helpu i feirniadu ein perfformiad yn y thema hon. Mae’n werth nodi o holl barthau’r MALIC, roedd y nifer uchaf o ardaloedd yn y Rhyl yn y 10% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y parth hwn, sy’n dangos yn glir y berthynas rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol ac iechyd a lles. Mae yna rai materion pryderus mae ein thema Dysgu a Thyfu yn ceisio eu datrys, fel ein lleoliad o fewn y

parthau Addysg a Chyflogaeth o fewn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, presenoldeb yn yr ysgol a'r nifer sy'n Gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET). Fodd bynnag, mae gennym drefniadau effeithiol a chadarn ar waith i gydweithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac mae yna waith ataliol da iawn sy'n cael ei wneud i gefnogi datblygiad Blynyddoedd Cynnar. Mae Cysylltedd a mynediad i wasanaethau yn parhau i fod yn broblem i ni ac mae'n thema sy'n parhau o'n Cynllun Corfforaethol blaenorol. Byddwn mewn safle gwell i ddadansoddi ein perfformiad unwaith y bydd data cyflwr ffyrdd ar gael. Mae sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hymrwymiad di-garbon net fel sefydliad erbyn 2030 yn parhau i fod yn her ac ni fydd yn cael ei gyflawni'n hawdd. Mae bod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 yn edrych yn fwy addawol. Mae gennym reolaeth gadarn ar waith i brofi ein cynnydd a'r cynlluniau sydd gennym ar waith. Er ein bod wedi beirniadu yn gyffredinol am ein mesurau a phrosiectau ar gyfer Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal, byddwn mewn lle gwell i feirniadu ein perfformiad a nodi rhwystrau neu heriau o'n hadroddiad nesaf. Bydd ein thema diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu, ynghyd â'n cyngor sy'n rhedeg yn dda, yn perfformio'n dda, angen ceisio ein ffyrdd dychmygol ac ansoddol i feirniadu i ba raddau mae'r newid diwylliant rydym eisiau ei weld yn cael ei gyflawni. Mewn perthynas â'n thema derfynol, rydym yn falch bod ein Cynllun Corfforaethol wedi'i alinio mor agos at ein gwerthoedd ac egwyddorioin sefydliadol. Mae'r ffaith bod nifer o'n themau Cynllun Corfforaethol yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuodd yn ein Cynllun Corfforaethol diwethaf yn defnyddio tystiolaeth a dyheadau rhanddeiliaid i gynllunio ar gyfer yr hirdymor i atal problemau rhag dirywio neu ddatblygu yn y lle cyntaf. Oherwydd nad yw'r rhan fwyaf o weithgaredd wedi dechrau, rydym yn teimlo bod y crynodeb hwn yn cynrychioli ein sefyllfa bresennol a'r prif feysydd her rydym yn wynebu yng nghamau cynnar cyflawni ein Cynllun Corfforaethol newydd.

## Crynodeb thema Cynllun Corfforaethol

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob blaenoriaeth yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi'i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail statws ein prosiectau.

### Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl

Mesurau: Prosiectau Blaenoriaeth
ar gyfer Gwella: Yn unol â'r targed

### Sir Ddinbych ffyniannus

Mesurau: Prosiectau Blaenoriaeth

ar gyfer Gwella: Yn unol â'r targed

**Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar**

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Yn wynebu risg

**Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu**

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Yn unol â'r targed

**Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well**

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Profi Rhwystrau

**Sir Ddinbych mwy gwyrdd**

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Yn wynebu risg

**Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal**

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Yn wynebu risg

**Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Yn wynebu risg

**Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda**

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Prosiectau: Yn wynebu risg

## Nodyn ynglŷn â Mesur Perfformiad

Yn Sir Ddinbych, ein dull arferol o bennu trothwyon perfformiad yw cymryd y chwartel uchaf (y perfformwyr gorau) o'r wybodaeth gymharol yn genedlaethol a gosod hwnnw fel y trothwy lle caiff perfformiad ei ystyried yn 'Rhagorol'. Y canolrif yw'r trothwy 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' fel arfer. Y man yn y canol rhwng y gwerthoedd hynny yw'r trothwy rhwng perfformiad 'Derbyniol' a 'Da'.

Os nad oes data ar gael i ni allu cymharu ein hunain ag eraill (naill ai'n genedlaethol neu â grwpiau cymharol) yna byddwn yn cymryd safbwynt lleol ar yr hyn yr ystyriwn sy'n berfformiad 'Rhagorol', ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Dylai hyn adlewyrchu ein huchelgeisiau.

Mae ein tablau data yn defnyddio'r un iaith hon, heblaw am 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella' sy'n fyrrach i 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Mae ein tablau data hefyd yn dangos gwybodaeth ynglŷn â thueddiadau. Mae tueddiad yn cael ei nodi yn 'Well', 'Gwaeth' neu 'yr un fath' ac yn seiliedig ar gymhariaeth gyda'r cyfnod blaenorol sydd gennym ddata ar ei gyfer. Ble bo'n bosibl, rydym hefyd yn dangos tueddiad ar gyfer prosiectau a gweithgareddau, a benderfynir hefyd drwy gymharu statws cyffredinol y prosiect neu'r gweithgaredd gyda statws yn y cyfnod blaenorol. Mae statws prosiect a gweithgaredd yn cael eu nodi 'O fewn Targed', 'Profi Rhwystrau', 'Mewn Perygl' neu 'Cyfaddawdu'.

I gael gwybod mwy am sut rydym yn rheoli perfformiad, ewch i weld y Canllaw i Reoli Perfformiad ar ein gwefan.

# Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl

Mesurau: Prosiectau Blaenoriaeth
ar gyfer Gwella: Yn unol â'r targed

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae rhai mesurau o dan y thema hon yn newydd i 2023 - 2024 ac nid oes yna ddata ar gael eto. Wrth edrych ar y data sydd gennym, rydym wedi rhagori ar ein targedau mewn rhai achosion, gan sicrhau tai ar gyfer 16 o bobl ar y Gofrestr Tai Anableddau Cymhleth. Fodd bynnag, 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' yw cyfraddau amddifadedd tai, wnaeth gynyddu rhwng 2014 a 2019, fel y dangosir gan ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Nid ydym yn gwybod beth yw'r sefyllfa ar ôl y pandemig gan fod y data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mwyaf diweddar ar gyfer 2019. Mae mynd i'r afael â'r mater digartrefedd yn Sir Ddinbych wedi bod yn heriol, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y tri dangosydd sy'n cael eu categoreiddio fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Mae'r rhain yn cael eu meincnodi yn genedlaethol ac yn dangos bod Sir Ddinbych yn cynnwys y raddfa isaf o ataliad o holl awdurdodau lleol Cymru a'r raddfa isaf o ryddhau'n gadarnhaol o ddigartrefedd ar gyfer y flwyddyn 2021 i 2022. Mae data ar gyfer 2022 i 2023 yn dangos ar gyfer atal a rhyddhau digartrefedd, mae perfformiad Sir Ddinbych yn waeth na'r flwyddyn flaenorol ac mae'r graddfeydd ar gyfer rhyddhau yn gadarnhaol yn well. Nid yw data cymharol gydag awdurdodau eraill ar gyfer y flwyddyn ddiweddar hon ar gael ar hyn o bryd. Mae llawer o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn, fodd bynnag, fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Strategaeth Dai a Digartrefedd. Er enghraifft, mae gwaith ymyrraeth ac ataliad cynnar ar y gweill gyda data perfformiad ar gyfer Fy Nghartref Sir Ddinbych yn dechrau cael ei gasglu yn y cyfnod hwn, ac mae yna arwyddion addawol o'r ffigwr atal digartrefedd sef 89%.

Mae cydymffurfiaeth stoc dai'r Cyngor gyda Safon Ansawdd Tai Cymru wedi parhau yn 100%, er mae'n rhaid i ni gydnabod y raddfa cydymffurfiaeth lawn (heb fethiant derbyniol) yn is na 58%. Er gwaethaf costau cynyddol yn effeithio ar faint gwaith gwella effeithlonrwydd a gyflawnir, rydym wedi gweld gwelliant yn y ganran o stoc dai'r Cyngor sy'n cyflawni graddfa ynni C neu uwch o 35% i 42% 'Derbyniol'. Mae lefelau boddhad tenant cyffredinol yn is nag y dymunwn, fodd bynnag, ac rydym yn parhau i yrru cynlluniau

cynnwys tenantiaid ymlaen (gweler diweddariad prosiectau ac rydym yn gobeithio adeiladu ar hyn yn y blynyddoedd i ddod.

Roedd nifer yr anheddau yn cynnwys gwelliannau gyda'r grant cyfleusterau i'r anabl wedi gostwng o 106 yn y flwyddyn flaenorol i 66 yn 2022 i 2023 ac mae'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Ffocws newydd ar gyfer 2023 yw arwyddbostio holl breswylwyr i gyfleoedd i wella effeithlonrwydd eu cartrefi, gan roi cyfle i ni gynyddu ymgysylltu gyda phobl yn ddigidol yn ogystal â dull mwy traddodiadol.   Wrth i ni fonitro cynnydd yn symud ymlaen, byddwn yn asesu'r angen am gefnogaeth ac yn gwneud cysylltiadau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Sir Ddinbych oedd yr awdurdod lleol oedd yn perfformio orau o ran ei gyflenwad o dai fforddiadwy yn 2021 i 2022.   Roedd y cyflenwad ychwanegol o Dai Cyngor yn nifer 'Derbyniol' o 15 ar gyfer 2022 i 2023. Fodd bynnag, mae yna ddyddiadau cwblhau mewn golwg ar gyfer datblygiadau Tai'r Cyngor yn y Gwanwyn 2023 (gweler diweddariad prosiectau). Roedd nifer ar y rhestr aros Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn a gyda'r system asesu yn cael ei gyflwyno'n fewnol yn Ebrill 2023, mae cyfle i adolygu a gwella systemau wedi cael ei greu gyda gweithgaredd i'r perwyl hwn yn dechrau o fis Ebrill.   Hefyd, o fis Ebrill byddwn yn monitro ymgysylltu gyda phobl sydd â diogelwch tai 'Mewn Perygl' drwy weithio mewn partneriaeth rhwng Cyngor Defnyddwyr Sir Ddinbych (CAD) a'r Tîm Atal Digartrefedd (TAD) yn ogystal â thrwy'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar Fy Nghartref Sir Ddinbych.

Ar gyfer mesurau a gweithgaredd arall sy'n ymwneud a'r gefnogaeth a gynigir i'r sawl sy'n profi digartrefedd gweler ein thema dysgu a thyfu ac ar gyfer cysylltiadau rhwng effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd, ewch i'n thema ar gyfer Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal.

## Mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Tai (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol**. | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 16%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth |

**Llinynnau Mesur Blynyddol neu Ddwyflynyddol**

| Teitl | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
|---|---|---|
| Y nifer o anheddau wedi gwella gyda grant cyfleusterau i'r anabl - **Meincnodi yn Genedlaethol** | 106<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 66<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth |
| Nifer y bobl oedd ar y Gofrestr Angen Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - **Wedi'i Feincnodi'n Lleol** | 13<br>Ardderchog<br>Gwell | 16<br>Ardderchog<br>Gwell |
| Canran y rhanddeiliaid sy'n cytuno bod yna ddigon o dai o ansawdd da yn Sir Ddinbych, sy'n ateb gofynion pobl - **Meinconodi yn Lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 31.19%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (adran 66) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 41.97%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | 38.35%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (adran 73) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 21.55%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | 15.96%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (adran 75) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 44.75%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | 50.22%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Cyfanswm nifer y bobl sy'n gadael gofal sy'n cael profiad o ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn (fel y'i diffinnir yn Neddf Tai (Cymru) 2014) o fewn 12 mis o adael gofal **- wedi'i feincnodi'n lleol** | 9<br>Da<br>Gwell | 3<br>Ardderchog<br>Gwell |

| **Teitl** | **2021 i 2022** | **2022 i 2023** |
|---|---|---|
| Canran o eiddo'r cyngor sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 100%<br>Ardderchog<br>Yr un fath | 100%<br>Ardderchog<br>Yr un fath |
| Canran y tenantiaid Tai Cyngor oedd yn fodlon gydag ansawdd eu tai - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 84%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | Aros am ddata Disgwylir yn ddiweddarach yn 2023 |
| Canran y tenantiaid oedd yn fodlon gyda'r ffordd mae Tai Sir Ddinbych yn delio gydag atgyweiriadau a chynnal a chadw - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 77%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | Aros am ddata Disgwylir yn ddiweddarach yn 2023 |
| Canran stoc dai presennol ac wedi'i gaffael gan y Cyngor yn cyflawni graddfa EPC (Ynni) C neu well - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 35.44%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 41.89%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 222<br>Ardderchog<br>Gwell | Aros am ddata Ar gael Mehefin 2023 |
| Y cyflenwad ychwanegol o Dai Cyngor a ddarparwyd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 13<br>Derbyniol<br>Gwell | 15<br>Derbyniol<br>Gwell |
| % o eiddo sector preifat gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd trwy weithred uniongyrchol gan yr awdurdod lleol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 22%<br>Ardderchog |

## Llinynnau Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

| **Teitl** | **Chwarter 4 2021 - 2022** | **Chwarter 1 2022 - 2023** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran o atgyweiriadau tai brys a gwblhawyd o fewn targed - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 93.48%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 92.51<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | 95.85<br>Derbyniol<br>Gwell | 94.72<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | 97.22<br>Derbyniol<br>Gwell |

| **Teitl** | **Chwarter 4 2021 - 2022** | **Chwarter 1 2022 - 2023** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o addasiadau i bobl anabl a gynhaliwyd i denantiaid tŷ cyngor - **Cyfrif yn Unig** | 51 | 59 | 66 | 64 | 56 |
| Nifer yr aelwydydd wnaeth dderbyn cymorth drwy'r cynllun ECO4 - **Cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Nifer yr ymweliadau â'n tudalen effeithlonrwydd ynni ar ein gwefan - **Cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Nifer y bobl ar restr aros SARTH – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 2050 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 2075 Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 2190 Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 2235 Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 2,093 Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd mewn Ymyrraeth Fuan ac Ataliad (Fy Nghartref Sir Ddinbych - **Cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 80 |
| Canran yr atgyfeiriadau Ymyrraeth Fuan ac Ataliad (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sydd wedi eu hatal rhag cyflwyno i wasanaeth atal digartrefedd - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 89.36% Ardderchog |

| Teitl | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o atgyfeiriadau Ymyrraeth Fuan ac Ataliad (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sydd ar gyfer bobl mewn cyflogaeth - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 22.5% |
| Y ganran o atgyfeiriadau Ymyrraeth Fuan ac Ataliad (Fy Nghartref Sir Ddinbych) Rhentu Preifat - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 63.75% |
| Y ganran o atgyfeiriadau Ymyrraeth Fuan ac Ataliad (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n b) Awdurdod Lleol - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 11.25% |
| Y ganran o atgyfeiriadau Ymyrraeth Fuan ac Ataliad (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n c) Cymdeithas Dai - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 2.5% |
| Y ganran o atgyfeiriadau Ymyrraeth Fuan ac Ataliad (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n d) Berchen-feddiannwyr - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 5% |
| Y ganran o atgyfeiriadau Ymyrraeth Fuan ac Ataliad (Fy Nghartref Sir Ddinbych) sy'n e) Anhysbys - **Cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer Ionawr 2023 | 17.5% |

| Teitl | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl mewn perygl o ddigartrefedd a gefnogwyd gan y swyddog cyswllt CAD-HPT (Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych - Tîm Atal Digartrefedd) - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Nifer y bobl mewn perygl o ddigartrefedd a gefnogwyd gan y swyddog cyswllt CAD-HPT (Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych - Tîm Atal Digartrefedd), y % sydd mewn gwaith - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae yna 17 prosiect wedi eu rhestru o fewn y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae pump o fewn ‘Targed’, pedwar yn ‘Profi Rhwystrau’, un yn y cam achos busnes, a dau yn gyflawn. Mae pedwar prosiect newydd ar gyfer 2023 i 2024, i ddechrau ym mis Ebrill. Mae yna un prosiect ‘Mewn Perygl’ (Gwella Effeithlonrwydd Ynni mewn Tai Cyngor). Mae’r newid polisi disgwyliedig i’r Safon Ansawdd Tai Cymru yn faes pryder ar gyfer targedau effeithlonrwydd ynni mewn Tai Cyngor, gyda chynnydd cost yn effeithio ar faint o waith a gyflawnir er mwyn bodloni’r targedau newydd. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn y crynodeb o’r mesurau, mae yna dueddiad cadarnhaol yn y data cyfraddau Tystysgrif Perfformiad Ynni. Yn gyffredinol, y prosiect mwyaf sylweddol o fewn y thema hon yw cyflawni’r Cynllun Gweithredu Strategaeth Dai a Digartrefedd. Mae hwn yn brosiect trosfwaol sy’n cynnwys nifer os nad holl agweddau o’r thema hon. Mae’n galonogol gweld bod hwn yn ‘Profi Anawsterau’ ac na ystyrir i fod ‘Mewn Perygl’, er ei bod yn bwysig cydnabod bod mesurau digartrefedd yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’.

Mae un prosiect ‘Datblygu a Gweithredu Defnydd Gorau o Stoc’ yn bwriadu gwneud y defnydd gorau o stoc dai i fodloni newid yn yr angen sydd wedi’i gynnwys yng ngweithgaredd busnes arferol y gwasanaeth ac mae yna waith nawr yn cael ei wneud i

dargedu'r mater hwn o dan feddiannu mewn Tai Cyngor. Mae un prosiect arall wedi'i gwblhau: 'Gweithredu rhaglen o Ymweliadau Tenantiaeth i gefnogi tenantiaid a chasglu data cywir ar aelwydydd i lywio darpariaeth gwasanaeth'. Mae'r gwaith hwn yn fusnes fel arfer, er y bydd yn cael ei gyfuno gyda gwaith i gynnwys tenantiaid sy'n fwy tebyg o brofi anghyfartaledd cymdeithasol i gael mynediad i wasanaethau a chymryd rôl weithredol yn eu cymuned.

### Prosiectau neu Weithgareddau

| **Teitl** | **Statws** | **Eithriadau** |
|---|---|---|
| Darparu a monitro Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Dai a Digartrefedd | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Datblygu a gweithredu cynllun Defnydd Gorau o Stoc i wneud y defnydd gorau o stoc dai i fodloni anghenion newidiol | Wedi'i wneud | Mae hwn yn fusnes fel arfer gan y bydd yna brosiectau parhaus rheolaidd i gefnogi hyn. Rydym yn gweithio i dargedu tan feddianwyr ar hyn o bryd i gysylltu i ddatblygiadau newydd ym Mhrestatyn er enghraifft. |
| Prosiect: Gwella Effeithlonrwydd Ynni yn Nhai'r Cyngor | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mae cynnydd da wedi'i wneud i gynyddu'r nifer o eiddo sy'n rhagori ar darged ynni'r cyngor. Fodd bynnag, rydym yn aros am y polisi Safon Ansawdd Tai Cymru newydd yr ydym yn credu fydd yn effeithio'n drwm ar ein targedau wrth fynd ymlaen. |
| Cydweithio gyda Chyngor Sir y Fflint i ddarparu gwybodaeth gyswllt ac arwyddbostio ar ein gwefan ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni cartrefi | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Hybu tudalen Effeithlonrwydd Ynni ar ein gwefan drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Arwyddbostio i gynllun NEST Llywodraeth Cymru drwy'r post | Yn unol â'r targed | |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Prosiect: Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Prosiect: Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Prosiect: Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun (Cam 2) | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Archwilio sut gallwn ddiogelu tai drwy ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru i reoli effaith ail dai. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Prosiect: Stryd Edward Henry | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Prosiect: Datblygu Tai Cyngor Ychwanegol | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Gweithio gyda Bwrdd Rhaglen Adfywio Y Rhyl i gyfrannu at ddatblygu Strategaeth Breswyl Y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Datblygu systemau perfformio ac adrodd ar ôl gweithredu SARTH a gwasanaeth blaenoriaethu Un Pwynt Mynediad presennol i ddeall dinasyddion sy'n cael mynediad i wybodaeth tai / SARTH ymhellach. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu fframwaith cynnwys tenantiaid ar gyfer Tai Sir Ddinbych | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Gweithredu rhaglen o Ymweliadau Tenantiaeth i gefnogi tenantiaid a chasglu data cywir ar aelwydydd i lywio darpariaeth gwasanaeth. | Wedi'i wneud | Mae'r gwaith hwn yn fusnes fel arfer a bydd yn cael ei gyfuno gyda gwaith i gynnwys tenantiaid sy'n fwy tebyg o brofi anghyfartaledd cymdeithasol i gael mynediad i wasanaethau a chymryd rôl weithredol yn eu cymuned. |

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Prosiect: SARTH: Ei gyflwyno'n fewnol | Yn unol â'r targed | |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ym mis Ionawr, rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i estyniad dros dro i gontractau a'r broses ar gyfer ail-dendro contractau mewn perthynas â Chynlluniau Byw â Chymorth Anableddau Dysgu Sir Ddinbych. Derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet ym mis Mawrth ar gyfer darparu System Caffael Dynamig ar gyfer darparu Cyfleusterau Grant ir Anabl, a ddarperir mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint.

Yn yr un cyfarfod, roedd y Cabinet wedi cymeradwyo adnewyddu fframwaith contractwr cynnal a chadw tai gwag i ymgymryd â gwaith ailwampio mewn eiddo domestig gwag sy'n eiddo i'r cyngor (gelwir yn dai gwag).

Roedd y Cabinet hefyd yn cefnogi'r Strategaeth Cynllun Datblygu Lleol Newydd a Ffefrir. Roedd y prif newidiadau i'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys gwneud cyfeiriadau ychwanegol i liniaru newid hinsawdd, lleihad carbon a theithio llesol.

Roedd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad wedi archwilio'r cynnydd a wnaed hyd yma i ddarparu'r Strategaeth Tai a Digartrefedd. Roedd yr adroddiad yn amlinellu prif feysydd ar gyfer cynnydd fel tai fforddiadwy.

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad, ar ystyried adroddiad yn amlinellu adborth i Lywodraeth Cymru ar lwydni ac anwedd yn stoc dai Cyngor Sir Ddinbych, wedi dod i'r casgliad ei fod yn fodlon gyda'r systemau a'r prosesau ar waith i fynd i'r afael â materion o'r fath.

Mae'r cyngor wedi dyfarnu'r contract i Fyddin yr Iachawdwriaeth i gynnal y Prosiect Cymorth Llety Brys Dros Dro yn y Rhyl, sy'n anelu i gefnogi pobl yn Sir Ddinbych sydd ar hyn o bryd yn cael eu cartrefu mewn llety brys.  Bydd y prosiect yn creu ugain swydd newydd.

## Sir Ddinbych ffyniannus

Mesurau: Prosiectau Blaenoriaeth
ar gyfer Gwella: Yn unol â'r targed

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â’r Llinynnau Mesur

O fewn y thema hon mae yna nifer o fesurau wedi eu meincnodi yn genedlaethol sy’n rhoi syniad o berfformiad o’i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae yna rai bylchau wrth i ni aros am gyhoeddiad data cenedlaethol newydd. Mae yna hefyd fylchau yn y data ble bydd y cyngor yn symud ymlaen gyda mesurau newydd o Ebrill 2023. Elfen allweddol o’r thema hon yw darparu mentrau i gymell twf economaidd ac mae’r mesurau isod yn awgrymu bod hwn yn faes pryder. Cyfraddau tâl blynyddol cyfartalog yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’ ac er eu bod wedi gwella, maent y gwaethaf yng Nghymru. Mae Data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer incwm hefyd yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’, fel y ganran hawliwr Credyd Cynhwysol yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae gennym sawl gweithgaredd a ddyluniwyd i hybu’r economi leol a byddwn yn mesur y cyllid allanol a sicrhawyd gan y cyngor ar gyfer datblygiad economaidd wrth symud ymlaen yn 2023, o fis Ebrill.

Gan gydnabod yr heriau economaidd lleol a byd-eang mae’n wynebu, bydd y cyngor yn datblygu strategaeth economaidd o fis Ebrill 2023 i gynnwys cynlluniau twf economaidd gwledig a threfol gwyrdd yn ogystal â datblygu twristiaeth. Mae gennym ddata STEAM ar gael ar gyfer 2021 i 2022, sy’n awgrymu bod effaith economaidd y ffigwr twristiaeth yn gwella, er bod hyn yn parhau yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’, ac rydym yn aros i ddata mwy diweddar gael ei ryddhau (yn yr haf) ar gyfer 2022 i 2023. Mae’r cyngor hefyd yn cydnabod ei rôl yn cefnogi twf busnes, menter leol a budd cymunedol. Mae cynllun Sir Ddinbych Yn Gweithio wedi gwneud cynnydd da drwy gefnogi 15 o bobl i ennill lleoliadau profiad gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae’r data cenedlaethol mwyaf diweddar ar gael yn dangos bod cyfradd y busnesau sy’n cau (busnesau yn dod i ben) yn fwy na’r gyfradd o fusnesau newydd sy’n cael eu creu (geni busnes) a’r gyfradd marwolaeth busnes yn Sir Ddinbych yn ystod y cyfnod hwnnw oedd y trydydd uchaf yng Nghymru ac yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’. Gwelwyd cynnydd da yng nghyfradd geni busnes, fodd bynnag, oedd yn dueddiad cadarnhaol ac roedd 390 busnes wedi eu cefnogi drwy 23 digwyddiad hyfforddi a rhwydweithio a gynhaliwyd rhwng 2022 a 2023.

Ar gyfer mesurau a gweithgaredd pellach i gefnogi sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth, gweler ein thema dysgu a thyfu; ar gyfer datblygu a budd cymunedol, gweler ein thema ar gyfer Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well. Yn olaf, ar gyfer themâu pellach a gysylltwyd â'r economi leol, gweler Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a chyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

### Mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Incwm (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol**. | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | 12%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |

## Mesurau Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
|---|---|---|
| Tâl blynyddol gros cyfartalog i bobl sy'n byw yn yr ardal ac yn gweithio'n llawn amser (£) - **Meincnodi yn Genedlaethol** | 26780<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | 27121<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran y rhanddeiliaid sy'n cytuno fod gan Sir Ddinbych economi ffyniannus sy'n darparu mynediad i'r sgiliau, swyddi ac incwm cywir - **Meincnodi yn Lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 31.89%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Cyllid allanol (mewn punnoedd) wedi'i sicrhau ar gyfer datblygu economaidd - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Y ganran o gyllid sydd ar gael a ddyfarnwyd gan Datblygu Busnes Economaidd ar gyfer grantiau eiddo masnachol - **Meincnodi Lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| STEAM - Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 432<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell | Aros am ddata Ar gael yn yr haf |
| Y nifer o fusnesau sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi - **Meincnodi yn Lleol** | Dim data. Gohiriwyd oherwydd y pandemig | 390<br>Ardderchog<br>Gwell |
| Genedigaeth busnesau fesul 10,000 o'r boblogaeth 16 i 64 oed - **Meincnodi yn Genedlaethol** | 78<br>Da<br>Gwell | Aros am ddata |
| Marwolaeth busnesau fesul 10,000 o'r boblogaeth 16 i 64 oed - **Meincnodi yn Genedlaethol** | 89<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | Aros am ddata |

**Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol**

| Teitl | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y bobl oedran gwaith sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol - **wedi ei feincnodi yn genedlaethol** | 3.7% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 3.5% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 3.5% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | 3.7% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 3.8% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth |
| Y nifer o leoliadau profiad gwaith gyda thâl a di-dâl a gynigir drwy Sir Ddinbych yn Gweithio - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | Dim data | Dim data | Dim data | 15 Da |
| Canran y gwariant gyda chyflenwyr o fewn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 36% Da Yn waeth | 39% Da Gwell | 35% Da Yn waeth | 35% Da Yr un fath | 35% Da Yr un fath |
| Canran cronnus o gontractau Sir Ddinbych dros £25,000 ac o dan £1,000,000 sy'n cynnwys manteision cymunedol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 88% Ardderchog Yn waeth | 100% Ardderchog Gwell | 64% Ardderchog Yn waeth | 64% Ardderchog Yr un fath | 66% Ardderchog Gwell |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae yna 21 prosiect wedi eu rhestru o fewn y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae saith yn rhedeg 'O fewn Targed', pedwar yn 'Profi Rhwystrau', mae un ar gam achos busnes ac mae un yn y cam brîff prosiect. Mae chwe phrosiect yn newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 i 2024, i ddechrau ym mis Ebrill. Mae yna ddau brosiect 'Mewn Perygl', ac mae'r rhain yn Adeiladau'r Frenhines, y Rhyl a hen Ysbyty Gogledd Cymru. Statws hyder darparu ar gyfer y blaenorol 'Mewn Perygl' oherwydd yr anhawster i benodi gweithredwr ac effeithiau hyn ar y dyddiad cwblhau. Disgwylir oedi yn yr hen Ysbyty Gogledd Cymru oherwydd yr angen i fodloni amodau cynllunio a thelerau cyfreithiol. Mae'r

prosiect wedi gwneud cynnydd ardderchog, fodd bynnag, o ran sicrhau cyllid Gogledd Cymru i lenwi’r bwlch cyllid hyfywedd.

Mae’n werth nodi nad yw llwyddiant y prosiectau hyn yn gyffredinol wedi’i adlewyrchu yn y mesurau, sydd yn bennaf yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’.  Gweithgaredd sylweddol ar gyfer y dyfodol o fewn y thema hon fydd datblygu Strategaeth Economaidd newydd y cyngor, gyda gwaith ar hwn yn dechrau o Ebrill 2023.

## Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

**Briffio ar gyfer yr holl gynghorwyr ar Fargen Dwf Gogledd Cymru**

Mae gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan gynnwys Bargen Dwf Gogledd Cymru wedi’i restru fel eitem ar restr wrth gefn cynllun gwaith i’r dyfodol Gweithdai’r Cyngor i’w ystyried ar ôl 2023.   Dylai unrhyw adolygiad o’r rhestr wrth gefn ystyried cynnwys yr eitem hon fel y gellir diweddaru cynghorwyr ar y gwaith hwn.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Galluogi prosiectau Bargen Dwf Gogledd Cymru mewn partneriaeth gydag Uchelgais Gogledd Cymru. | Yn unol â'r targed | |
| Cydlynu ffrydiau rhaglen gyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Prosiect: Stryd Fawr Corwen (De Clwyd Ffyniant Bro Rownd 2) | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Datblygu ceisiadau am arian ar gyfer rowndiau yn y dyfodol o gyllid Bargen Dwf a Ffyniant Bro | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Prosiect: Adeiladau'r Frenhines yn y Rhyl | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mewn perygl o beidio cael ei gwblhau ar gyfer cyfnod prysur yr haf. Bwriad i benodi gweithredwr erbyn mis Mehefin. |
| Prosiect: Hen Ysbyty Gogledd Cymru | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Cyllid hyfywedd wedi'i sicrhau.Nid yw datblygu ar y safle yn debyg o ddechrau am beth amser. Bwriadu cyflwyno amodau cynllunio, adeiladau rhestredig ac adroddiadau cytundeb cyfreithiol i'r Pwyllgor Cynllunio erbyn Mai. |
| Prosiect: Adeilad Fictoraidd Swyddfa'r Post (Y Rhyl) | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Datblygu Strategaeth Economaidd newydd y Cyngor | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu Cynllun Creu Lleoedd Canol y Dref | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Datblygu'r Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy AHNE ac integreiddio i Gynlluniau Twristiaeth Lleol | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflawni Strategaeth a Chynllun Gweithredu Twristiaeth Sir Ddinbych 2022 - 2027 | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Gwerthuso effaith yr Ardoll Twristiaeth | Heb ddechrau | Nid yw'r Ardoll Twristiaeth yn weithredol mewn gwirionedd. Rydym wedi cynnal yr ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022. Mae bellach yn mynd drwy broses fydd yn golygu craffu ar amrywiol lefelau yn y Senedd ac yna o bosibl yn dod yn gyfraith cyn i'r tymor gwleidyddol presennol ddod i ben. |
| Prosiect: Cyd-leoli Canolfan Wybodaeth Twristiaeth ac Amgueddfa Y Rhyl | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Prosiect: Ceisio gwella edrychiad eiddo Canol Tref y Rhyl sydd heb ei gynnal yn dda. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Prosiect: Ailgysylltu pen uchaf Stryd Fawr y Rhyl gyda'r traeth (promenâd y Rhyl) | Profi Rhwystrau<br>Yn waeth | |
| Prosiect: Gweithio gyda Bwrdd Rhaglen Adfywio Y Rhyl i gyfrannu at ddatblygu Strategaeth Parth Cyhoeddus Y Rhyl | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Prosiect: Porth Y Rhyl | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |
| Gweithio gyda chyflogwyr i nodi swyddi anodd recriwtio ar eu cyfer a datblygu llwybrau sector i lenwi'r bylchau | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Cydlynu ystod o gyfleoedd hyfforddi a rhwydweithio ar gyfer busnesau, arwyddbostio i gyrsiau digidol a gweminar. | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Cwblhau adroddiad dichonoldeb ar gyfer llety symud ymlaen ym Mharc Busnes Llanelwy | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu Fframwaith Buddion Cymunedol i alinio gyda Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) | Yn unol â'r targed | |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Yn Ionawr, roedd y Cabinet wedi cymeradwyo ceisiadau blwyddyn 1 ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a nodwyd y broses ac amserlenni ar gyfer rowndiau ceisiadau yn y dyfodol. Yng nghyfarfod mis Chwefror, roedd y Cabinet wedi cytuno i gomisiynu Cadwyn Clwyd a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i ddarparu rhaglen (gan gynnwys rhaglen grant neu 'Gronfa Allweddol') yn y maes Cefnogi Busnes a Datblygu Capasiti Cymunedol o dan ymyrraeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Adroddwyd am lwyddiant cymysg ym mis Ionawr, gyda'r Cyhoeddiad Cronfa Ffyniant Bro ond bu cais Dyffryn Clwyd yn aflwyddiannus ond roedd y cais ar gyfer prosiectau Gorllewin Clwyd wedi'i sicrhau.

Gadewch i ni ddangos ein cariad at fusnesau lleol ar Ddydd Santes Dwynwen oedd y Thema ar 25 Ionawr, wrth i'r cyngor atgoffa preswylwyr i gefnogi ein trefi lleol wrth feddwl am roddion a danteithion i'n hanwyliaid.

Cynhaliwyd ffeiriau swyddi Sir Ddinbych yn Gweithio yn y Rhyl yn Ionawr ac yn Neuadd y Dref Llangollen ym mis Mawrth. Roedd y digwyddiadau yn anelu i gefnogi dinasyddion Sir Ddinbych i gael addysg, hyfforddiant a gwaith.

Ymgyrch blynyddol y Cyngor Mis Mawrth Busnes yn ôl ac yn cynnig gweithdai yn rhad ac am ddim, digwyddiadau rhwydweithio a sesiynau cyngor ar gyfer busnesau ledled Sir Ddinbych. Digwyddiadau dros dro i gefnogi busnesau gydag ystod o destunau, gan gynnwys dechrau busnes, cyllid a thwf wedi eu cynnal yn Ninbych a Rhuthun. Roedd Cinio Mis Mawrth Menter Gogledd Cymru wedi denu presenoldeb gan alluogi dros 100 o bobl i rwydweithio a rhannu cipolwg ar ymdopi gyda chostau cynyddol cynnal busnes. Roedd Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych yn rhoi cyfle gwych i ymgeiswyr glywed am y newyddion twristiaeth diweddaraf a chyfarfod busnesau eraill o'r un anian. Cynhelir gan Dîm Twristiaeth y Cyngor, cynhelir y fforwm nesaf yn yr Hydref 2023.

Cynhelir sesiwn alw heibio yn Neuadd y Dref Llangollen ym mis Mawrth er mwyn rhoi'r cyfle i breswylwyr lleol, busnesau ac ymwelwyr gael gweld y dewisiadau dylunio cysyniadol sydd wedi'u datblygu, yn dilyn yr ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd ar gyfer prosiect Pedair Priffordd Fawr.

Mae'r Fifth Wheel Company a Bio-Check yn gwmnïau a leolir yn Llanelwy a sefydlwyd i gael budd o ymchwil a datblygu i roi hwb i gefnogaeth ddigidol a thechnolegau clyfar. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU, mae pob busnes sy'n cymryd rhan yn cael cymorth arbenigol ar brosiectau ymyrraeth tri mis gan arbenigwyr digidol.

Trefnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth gyda Wrecsam a Sir y Fflint, roedd dros 60 o fusnesau a 170 o bobl wedi cymryd rhan mewn teithiau ymgyfarwyddo drwy gydol mis Mawrth, sy'n cael eu dylunio i rannu gwybodaeth am atyniadau Gogledd Ddwyrain Cymru fel rhan o Gynllun Llysgennad Twristiaeth Sir Ddinbych i hybu twristiaeth.

Ehangu mannau gwyrdd ac offer chwarae wedi dechrau ym mis Mawrth ym Mharc Glan yr Afon Llangollen, a wnaed yn bosibl drwy'r gronfa Pethau Pwysig i wella seilwaith twristiaeth ar draws Cymru.

Roedd y Cyngor a Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE wedi cynghori pobl i gynllunio ymlaen llawn ar gyfer ymweld â chefn gwlad dros y Pasg. Roedd y cyngor wedi amlygu mesurau traffig newydd ac annog ymwelwyr i barchu cefn gwlad a pharcio'n gyfrifol.

# Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Mewn Perygl

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

O ran y mesurau ar gyfer y thema hon, mae'r mwyafrif o'r rhain yn newydd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ac ar gyfer 2023 i 2024. Dylid nodi bod llawer o fesurau yn 'cyfrif yn unig' ac nid yn cynnwys trothwyon ar hyn o bryd, sy'n golygu nad ydym wedi gosod ein lefel o uchelgais na phwynt ymyrraeth.

Roedd 17% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych yn parhau yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran iechyd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn 2019; mae hyn wedi cynyddu o 10% yn 2014 ac mae'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Roedd ein harolwg rhanddeiliaid blynyddol yn gofyn i rhanddeiliaid ddweud pa un a oeddent yn cytuno y gallant fyw yn ddiogel, hapus ac annibynnol yn y sir a hefyd derbyn cefnogaeth dda pan fydd angen. Roedd 47.44% yn cytuno bod hyn yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Mae yna waith gwych yn cael ei wneud ar gyfer cynnal canran uchel o ymholiadau diogelu gan oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith o dderbyn adroddiad am y gamdriniaeth honedig Gallwn hefyd nodi nifer y cysylltiadau gan oedolion sy'n ofalwyr a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor neu gymorth yn parhau i gynyddu.

Mae'r nifer o bobl ifanc rhwng 10 a 18 oed (fesul 100 o'r boblogaeth) sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela yn Sir Ddinbych ac yn cael canlyniad cadarnhaol yn 3.3 ac mae'n cael ei ystyried yn 'Dderbyniol'.

Hoffem weld y ganran o oedolion sy'n derbyn eiriolaeth proffesiynol annibynnol yn codi'n uwch na'r nod rydym wedi'i osod yn 75% (mae'r nifer yn 72.5% ar hyn o bryd). Rydym yn edrych ar nodi rhesymau dros nifer is ac yn gweithio gyda dinasyddion i oresgyn y rhesymau hynny.

Ar gyfer mesurau a gweithgaredd pellach i gefnogi tai a digartrefedd, gweler ein themâu Tai a Ffyniannus . I gael gwybodaeth am gydraddoldeb ac amddifadedd, ac amgylchedd diogel, gweler ein thema Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal. Yn olaf, i gael manylion pellach am ein gwaith i gefnogi addysg a lles, gweler ein thema Dysgu a Thyfu.

### Mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| **Teitl** | **2014** | **2019** |
|---|---|---|
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Iechyd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol**. | 10%<br>Blaenoriaeth i Wella | 17%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth |

**Mesurau Blynyddol neu Ddwyflynyddol**

| Teitl | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
|---|---|---|
| Canran yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol - **wedi'i feincnodi yn lleol.** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn - **Cyfrif yn Unig** | 19 | 18 |
| Canran y cynadleddau amddiffyn plant a gynhelir o fewn amserlenni statudol - **Meincnodi yn Lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Canran yr ysgolion sydd wedi cyflawni statws Ysgol sy'n Deall Trawma erbyn 2027 -**Wedi'i Feincnodi yn Lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Y nifer o blant sy'n derbyn gofal ar ôl 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed fesul awdurdod lleol a blwyddyn - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 96 |
| Y nifer o bobl ifanc wedi eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ystod y flwyddyn o Sir Ddinbych - **Wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Nifer y cysylltiadau gan oedolion sy'n ofalwyr a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor neu gymorth - **Cyfrif yn Unig** | 1,037 | 1,159 |
| Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr oedolion a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.**Cyfrif yn Unig** | 390 | 401 |
| Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ar gyfer gofalwyr ifanc a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn - **Meincnodi yn Lleol**. | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Canran yr ysgolion yn y sir sy'n cynnwys y Dull Ysgol Cyfan ar gyfer iechyd meddwl a lles (yn cynnwys cyfraniad rhanbarthol) - **wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Y nifer o bobl ifanc (fesul 100 o breswylwyr 10 - 18 oed) sy'n derbyn cwnsela yn Sir Ddinbych ac sydd â chanlyniad cadarnhaol - **Wedi ei feincnodi yn Genedlaethol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 3.3<br>Derbyniol |

| | | |
|---|---|---|
| Y gwelliant ar gyfartaledd mewn sgôr craidd bobl ifanc i blant a phobl ifanc sy'n derbyn cwnsela yn Sir Ddinbych - **Wedi ei feincnodi yn genedlaethol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 8.5 Ardderchog |
| Y ganran o rhanddeiliaid wnaeth gytuno y gallant fyw yn ddiogel, hapus ac annibynnol yn Sir Ddinbych a hefyd yn derbyn cefnogaeth dda pan fydd angen i hybu gwytnwch a lles - **Wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 47.44% Blaenoriaeth i Wella |
| Y ganran o bobl ifanc gafodd ddewis y cynnig gweithredol o eiriolaeth gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant - **Wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | Aros am ddata |
| Y ganran o oedolion ble darparwyd eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar ôl asesu'r angen - **Wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 72.5% Blaenoriaeth i Wella |
| Y nifer o brosiectau a gefnogwyd gan y Tîm Datblygu Cymunedol, ac ariannwyd yn cynnig effaith gadarnhaol ar gyfer unigrwydd ac unigedd - **Meincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Canran y bobl ifanc (11 - 25 oed) sy'n cymryd rhan mewn cyfleoedd gweithgarwch ieuenctid a ddarperir ac a gefnogir gan y Gwasanaeth Ieuenctid- **Wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data | 26% Da |
| Y nifer o Grwpiau Cymunedol y Sir sy'n defnyddio cyfleusterau - **Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig** | 137 Ardderchog | 134 Ardderchog Yn waeth |
| Nifer y cyfleusterau/ lleoliadau amgen (y tu hwnt i'r cwmpas) a ddefnyddiwyd er mwyn cyflenwi gwasanaethau i breswylwyr CSDd - **Wedi ei feincnodi yn lleol**. | 107 Ardderchog | 96 Ardderchog Yn waeth |
| Y nifer o brosiectau / grwpiau chwaraeon a hamdden a gefnogir gan y Tîm Gwytnwch Cymunedol - **Wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Y nifer cronnus o fusnesau micro-ddarparwyr newydd a grëwyd ar gyfer anghenion gofal a chefnogaeth dinasyddion - **wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 30 Ardderchog |

**Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol**

| Teitl | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o ymholiadau diogelu gan oedolion a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl derbyn adroddiad am gamdriniaeth honedig - **Wedi ei feincnodi yn lleol** | Dim data | 98.7% Ardderchog | 98.85% Ardderchog Gwell | 98.84% Ardderchog Yn waeth | 98.8% Ardderchog Yn waeth |
| Y nifer o becynnau gofal a chefnogaeth sydd o'r maint cywir ar gyfer gofal unigol gyda'r math cywir o offer arbenigol - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Y nifer o entrepreneuriaid posibl a ddarparwyd cymorth i fod yn barod ar gyfer busnes anghenion gofal a chefnogaeth dinasyddion - **Cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 20 |
| Y nifer o gysylltiadau Un Pwynt Mynediad ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth - **Cyfrif yn Unig** | 4439 | 3762 | 4988 | 4586 | 5134 |
| Y nifer o atgyfeiriadau / ymholiadau a gofnodwyd ar Borth Cefnogi Plant a Theuluoedd - **Wedi ei feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Y nifer o gysylltiadau Pwyntiau Siarad ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth (llyfrgelloedd, Siop Un Alwad a gynhelir gan Gydlynydd Cymunedol ac ati) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o ddinasyddion yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth gan Bwyntiau Siarad nad oedd angen eu hatgyfeirio i Ofal Cymdeithasol i Oedolion - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae yna 26 prosiect wedi eu rhestru o fewn y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae un ar ddeg yn rhedeg 'O fewn Targed', mae un yn 'Profi Rhwystrau' ac un yn ymddangos wedi'i gwblhau; mae hyn yn 'Dylunio a darparu rhaglen chwaraeon i wella iechyd a lles pobl ifanc'. Bydd yna fwy o waith ar raglenni chwaraeon ar gyfer pobl ifanc a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn fusnes fel arfer.

Mae tri phrosiect 'Mewn Perygl'. Mae un o'r rhain yn ymwneud â'n gwaith i gynnal ein statws fel sefydliad sy'n deall dementia gyda'r Gymdeithas Alzheimer drwy asesiad blynyddol. Mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi cadarnhau na fyddant yn cynnig y statws hwn mwyach (o ddiwedd 2023) ac felly ni fyddwn yn darparu asesiadau blynyddol mwyach o dan y fenter hon. Mae'r Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych. a'r Grŵp Cyngor Sy'n deall Dementia wedi uno a bydd gwaith yn parhau i ddatblygu darpariaeth i bobl sy'n byw gyda Dementia a'r sawl sy'n gofalu amdanynt. Yn ogystal, bydd y grŵp hwn yn gweithio tuag at fod yn sir gyfeillgar i oed gyda Sefydliad Iechyd y Byd yn defnyddio eu wyth parth asesu, sy'n cynnwys cyfranogiad cymdeithasol a pharch a chynhwysiad cymdeithasol, y ddau faes yn cynnwys iechyd da a lles i bobl o bob cefndir. Mae'r ddau brosiect arall 'Mewn Perygl' yn seiliedig ar raglenni a gynhelir gan y Ceidwaid Chwarae. Mae gostyngiadau mewn cyllid yn effeithio ar hyder y prosiectau hyn er bod dewisiadau cyllid allanol yn cael eu harchwilio.

Mae deg prosiect yn newydd ar gyfer 2023 i 2024 a byddant yn dechrau ym mis Ebrill. Mae un o'r rhain yn y cam brîff prosiect, a bydd un prosiect, 'Gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid' yn cael ei ohirio gan Lywodraeth y DU. Mae gan Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i gyd weithdrefnau diogelu ar waith, felly nid oes yna fwlch terfynol mewn darpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag,

byddwn yn aros am gyfarwyddyd pellach gan Lywodraeth y DU, sy’n debyg o fod o 2024 ymlaen.

## Prosiectau neu Weithgareddau

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a sicrhau bod staff yn cael eu paratoi'n effeithiol ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant er mwyn ei weithredu. | Heb ddechrau | Deellir bod Llywodraeth y DU wedi gohirio gweithredu hyd at dymor y senedd nesaf. |
| Sefydlu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ym mhob agwedd o Wasanaethau Plant. | Yn unol â'r targed | |
| Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu'r cydgynllun strategol blynyddol ar gyfer Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru | Yn unol â'r targed | |
| Monitro a gweithredu gofynion Maethu Cymru a monitro effeithlonrwydd dull cenedlaethol. | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Ymgorffori gwaith y Tîm Byw'n Annibynnol i gefnogi unigolion drwy daliadau uniongyrchol neu Gardiau Rhagdaladwy, i gynyddu effeithlonrwydd | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Gweithredu gwaith ADY ôl 16 oed | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu gwyliau byr preswyl yn y sir a darpariaeth gofal brys i blant ag anghenion ac anableddau cymhleth ac anableddau o fewn Sir Ddinbych. | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Adolygu Seibiant Preswyl yn y Sir. | Heb ddechrau | Unwaith y bydd y prosiect wedi llwyddo yn y brîff prosiect a'r camau achos busnes, byddwn yn dechrau adrodd ar y prosiect hwn. |
| Gweithredu ac ymgorffori gofynion Cod Ymarfer Awtistiaeth ar lefel leol ar draws Gwasanaethau Plant. | Profi Rhwystrau | |
| Gweithredu'r Ymyrraeth Cefnogi Rhianta y Tu Allan i'r Llys i gydymffurfio â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru) 2020 (erbyn 2025). | Yn unol â'r targed | |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithio gyda gofalwyr di-dâl lleol i nodi'r cyfleoedd seibiant maent eu hangen a sut mae rhwystrau yn cael eu goresgyn i alluogi hyn. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Bwthyn y Ddôl Cam 2 (Gweithgaredd) Datblygu a gweithredu, gan gynnwys staffio Canolfan Asesu Plant newydd ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Yn unol â'r targed | |
| Ysgol Tir Morfa - pwll hydrotherapi | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Gwella'r gwaith ymyrraeth ym Mhlas Brondyffryn a Thir Morfa o ran cyfleoedd chwarae gan Geidwaid Chwarae. | Yn unol â'r targed | |
| Cynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr ifanc di-dâl gymryd rhan mewn pecyn hwyliog Seibiant Byr cenedlaethol tair blynedd (drwy Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru). | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Gwaith i gynnal statws fel sefydliad Sy'n Deall Dementia gyda'r Gymdeithas Alzheimer (asesiad blynyddol). | Mewn Perygl | Mae'r Gymdeithas Alzheimer wedi cadarnhau na fyddant yn cynnig y statws hwn mwyach (o ddiwedd 2023) ac felly ni fyddwn yn darparu asesiadau blynyddol mwyach o dan y fenter hon. Mae'r Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych a'r Grŵp Cyngor Sy'n deall Dementia wedi uno a bydd gwaith yn parhau i ddatblygu darpariaeth i bobl sy'n byw gyda Dementia a'r sawl sy'n gofalu amdanynt. |
| Gweithio mewn partneriaeth yn rhanbarthol i ymgorffori Llwybr Safonau Dementia Cymru Gyfan. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Gwaith i ddatblygu ac ymestyn y prosiect Mynediad i Chwarae ledled y sir. | Mewn Perygl | Mae gostyngiad sylweddol mewn arian yn rhoi'r rhaglen hon mewn perygl. Mae grantiau allanol pellach yn cael eu harchwilio wrth i'r galw am y gwasanaeth barhau i dyfu. |
| Ymestyn y cynnig Ceidwaid Chwarae o'r Rhaglen Gadewch i Ni Chwarae Allan ledled y sir. | Mewn Perygl | Mae gostyngiad sylweddol mewn arian yn rhoi'r rhaglen hon mewn perygl. Mae grantiau allanol pellach yn cael eu harchwilio wrth i'r galw am y gwasanaeth barhau i dyfu. |
| Gweithio i leihau'r rhestr aros am gefnogaeth i'r Gwasanaethau Ieuenctid yn Sir Ddinbych. | Yn unol â'r targed | |
| Gwella'r Prosiect Story Pals a'r rhaglen Gelfyddydau i ddarparu gweithgareddau pontio'r cenedlaethau (darperir drwy'r Strategaeth Gelfyddydau Sir Ddinbych). | Yn unol â'r targed | |
| Cynnal adolygiad o eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer holl ddarpariaeth gwasanaeth. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Gweithio tuag at fod yn Sir Ddinbych cyfeillgar i oed, gyda Sefydliad Iechyd y Byd, mewn partneriaeth gyda grŵp amlasiantaeth Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Darparu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i annog plant ac oedolion i ail-ymgysylltu gyda'u llyfrgell leol, i gefnogi ymgysylltu a lles a goresgyn arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd. | Yn unol â'r targed | |
| Dylunio a darparu rhaglen chwaraeon i wella iechyd a lles bobl ifanc. | Wedi'i wneud | Mae'r gweithgaredd wedi'i gwblhau a bydd gwaith ar gyfer gweithgareddau chwaraeon yn fusnes fel arfer yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| Ymestyn y Rhaglen Natur er budd Iechyd o fewn Sir Ddinbych sy'n cynnig sawl budd - lleihau ynysiad, gwella iechyd, sgiliau gwledig, iechyd a theithiau natur, celf a chrefft) | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ar ddechrau 2023 gwelwyd Tîm Safonau Masnach y cyngor yn cynyddu eu hymgyrch i gymryd camau yn erbyn siopau a ganfyddir sy'n cyflenwi tybaco anghyfreithlon. Ymgymerwyd â gwaith, gyda chefnogaeth Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer Operation CeCe - menter ar y cyd rhwng Safonau Masnach Cenedlaethol a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i fynd i'r afael â masnachu tybaco anghyfreithlon - a swm sylweddol o dybaco anghyfreithlon wedi'i feddiannu yn y Rhyl a threfi eraill yng Ngogledd Cymru. Mae Safonau Masnach Sir Ddinbych hefyd yn annog busnesau i wneud gwiriadau angenrheidiol ar stoc e-sigarets, hylifau a dyfeisiau e-sigarets tafladwy a sicrhau eu bod yn bodloni anghenion cyfreithiol y DU. Mae nifer cynyddol o gynnyrch e-siagrets tafladwy nad ydynt yn cydymffurfio wedi cael eu canfod ar werth o fewn Sir Ddinbych. Mae'r mwyafrif o gynnyrch a ganfuwyd ddim yn cydymffurfio oherwydd bod tanciau yn rhy fawr, labelu anghywir a heb eu cofrestru - sy'n golygu nad ydynt yn gynnyrch hysbys gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

Roedd Pwyllgor Craffu Cyngor Sir Ddinbych wedi ystyried adolygiad o dan weithdrefn 'galw i mewn' y Cyngor ar benderfyniad a wnaed gan y Cabinet, ar 13 Rhagfyr 2022, ar 'Argymhellion y Grŵp Gosod Ffioedd Rhanbarthol'. Mae'r "galw i mewn" yn rhan arferol o'r broses ddemocrataidd, ac yn caniatáu i'r Pwyllgor Craffu i ymarfer ei bwerau statudol i adolygu neu graffu ar benderfyniadau gweithredol.

Ym mis Chwefror roedd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau wedi derbyn adroddiad ar Brosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych. Y prosiect oedd datblygu safle Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl; datblygiad hanfodol ar gyfer Sir Ddinbych a'i bartner Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ymwneud â'r pwysau sy'n wynebu Ysbyty Glan Clwyd.

Roedd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, yn yr un cyfarfod wedi cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr o Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol

Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru ar eu trefniadau gwaith partneriaeth mewn perthynas â iechyd meddwl.

Roedd tîm Ar Ymyl Gofal wedi lansio prosiect newydd ym mis Ionawr, yn gofyn i wirfoddolwyr gefnogi prosiect a anelwyd at wella iechyd meddwl a lles unigolion sy'n byw yn yr ardal. Mewn ymateb i'r pandemig a'r angen i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain, mae Gwasanaethau Cymorth Cymunedol Sir Ddinbych hefyd wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer ci, Maisie, i fynd gyda'i gwirfoddolwr, Jackie ar ymweliadau cartref. Nod y prosiect yw tawelu meddyliau pobl a helpu i leihau straen.Roedd mwy o waith yn ein cartrefi gofal yn gweld preswylwyr a'u teuluoedd yng Nghartref Gofal Cysgod y Gaer yng Nghorwen yn mwynhau cyfle i gwrdd â nifer o anifeiliaid, gan gynnwys cwningod, mochyn cwta, tortois, nadroedd a pheithon, ceffyl Shetland a madfallod. Ym mis Chwefror 2023 gwelwyd dechrau prosiect peilot therapi cerdd newydd yng Nghartref Gofal Dolwen yn Ninbych. Gall therapi cerddoriaeth gefnogi pobl â phob math o gyflyrau: o awtistiaeth i ddementia, anawsterau dysgu i anafiadau i'r ymennydd, salwch sy'n cyfyngu ar fywyd i faterion iechyd meddwl, galar a thrawma.

Cadarnhaodd y cyngor y bydd yn parhau i gynnig rhaglen ddatblygu am ddim sy'n cefnogi preswylwyr i sefydlu eu gwasanaeth meicro-ddarparwr eu hunain yn eu cymunedau lleol, yn dilyn llwyddiant y prosiect yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae meicro-ddarparwyr yn cynnig gofal a chefnogaeth i bobl hŷn a phobl anabl yn eu cartrefi eu hunain i'w helpu nhw i fyw eu bywydau yn y ffordd y maen nhw'n ei ddymuno. Hyd yma, mae yna dros 20 meicro-ddarparwr yn gweithredu yn Sir Ddinbych sy'n cefnogi tua 140 o breswylwyr.

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts, Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn cyflwyno enillwyr ei gystadleuaeth celf mewn ysgolion - gafodd ei lansio mewn partneriaeth gydag un o'i elusennau enwebedig, NSPCC Cymru, Canolbwynt Gogledd Cymru, Prestatyn - gyda thystysgrifau, medalau a gwobrau am eu hymdrechion rhagorol. Gofynnwyd i blant dynnu llun beth oedd yn gwneud iddynt deimlo'n hapus. Gwahoddwyd enillydd cyffredinol o Ysgol y Parc i fynychu cyflwyniad bach yn y Cyngor ym mis Chwefror.

## Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Yn unol â'r targed

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â’r Llinynnau Mesur

Mae’r fframwaith perfformiad hwn yn gyffredinol wedi’i rannu ar draws tri maes ffocws ar gyfer y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol - yn benodol cefnogaeth ar gyfer Datblygu Blynyddoedd Cynnar; Ymgysylltu a Chyflawniad Ysgolion; a Chefnogaeth Cyflogadwyedd. Yn yr adroddiad cyntaf hwn, mae yna dal rai mesurau sydd angen eu datblygu a bylchau i’w llenwi, yn bennaf i wneud gyda’n mesurau perfformiad chwarterol. Fel arall, mae’r tablau isod yn darparu cipolwg ar berfformiad allweddol ar ddiwedd y flwyddyn, a meysydd i ganolbwyntio ar wella wrth symud ymlaen.

Mae yna dri, beth fyddem yn eu hystyried yn ddangosyddion trosfwaol o fewn y set; mae dau ar gyfer y parthau Addysg a Chyflogaeth o fewn Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Ar gyfer y ddau fesur mae ein perfformiad yn parhau heb newid ers yr adroddiad WIMD blaenorol yn 2014 (9% a 12% yn y 10% uchaf mwyaf difreintiedig), drwy ein lleoliad wedi gwella i ‘Derbyniol’ ar gyfer y parth Addysg oherwydd bod perfformiad wedi gwaethygu yn genedlaethol. Mae ein trydydd mesur ‘trosfwaol’ yn ystyried y ganran o rhanddeiliaid sy’n cytuno bod dysgu a hyfforddi o ansawdd da ar gael yn Sir Ddinbych, ble roedd 48% yn cytuno.

Mae yna waith da eithriadol yn cael ei wneud i gefnogi datblygiad Blynyddoedd Cynnar. Ym mis Medi 2022, roedd gan 82% o bob plentyn oedd yn dechrau yn y feithrinfa broffil unigol, a elwir yn ‘Me in a Nutshell’, a ddatblygwyd i’w cefnogi ar gyfer pontio effeithiol. Mae’r rhain yn cael eu datblygu gyda chefnogaeth y Tîm Cyswllt Teulu. Yn y cyfamser, roedd 99% o rieni yn adrodd am effaith gadarnhaol mynychu Dechrau Da / Amser Rhigwm drwy ein Gwasanaethau Llyfrgell.

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn dilyn y pandemig yn parhau’n bryder, gyda phresenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn gostwng yn sylweddol i 86% (93% yn 2019). Mae’r Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg yn parhau i fonitro a gweithio’n agos gydag ysgolion i sicrhau bod gweithdrefnau presenoldeb effeithiol ar waith; fodd bynnag, ni ellir osgoi bod Covid-19 wedi parhau i gael effaith yn ystod 2022 i 2023.

Mae data diweddar a gyhoeddwyd ar gyfer y ganran o ddisgyblion wedi gadael blwyddyn 11 Ddim mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant yn dangos bod safle Sir Ddinbych wedi gostwng o 1.7% i 2.3% yn ystod 2022 i 2023.   Mae hyn yn cynrychioli 26 o bobl ifanc. Mae'n bwysig nodi mai'r grŵp blwyddyn hwn gafodd ei effeithio waethaf o'r holl grwpiau oed gan y pandemig; yn profi amhariad ar eu haddysg yn ystod blynyddoedd 9, 10 ac 11. Mae ein mesur newydd ar gyfer y ganran o ddisgyblion Blwyddyn 11 gyda llwybr ôl-16 a nodwyd hefyd yn dangos nad oes gan 4% gynllun ar waith.

Mae cwblhau Cynlluniau Llwybr Gadael Gofal o fewn amserlenni statudol hefyd yn parhau i fod yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella' yn 71% yn ystod 2022 i 2023, er bod hwn yn welliant ar berfformiad ers y flwyddyn flaenorol (20%).

Ar gyfer mesurau a gweithgaredd pellach i gefnogi lles gweler ein thema Iachach, Hapusach a Gofalgar; ar gyfer tegwch mewn addysg gan gynnwys cefnogaeth prydau ysgol am ddim, gweler ein thema ar gyfer Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal. Yn olaf, ar gyfer manylion pellach am ein gwaith i gefnogi gwirfoddoli a chyflogaeth, gweler y themâu Cysylltu a Ffyniannus.

### Mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Addysg (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol**. | 9% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 9% Derbyniol Yr un fath |
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Cyflogaeth (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol**. | 12% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 12% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath |

## Mesurau Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| **Teitl** | **2021 i 2022** | **2022 i 2023** |
|---|---|---|
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno bod dysgu a hyfforddi o ansawdd da ar gael yn Sir Ddinbych, gan ganiatáu i bobl o bob oedran gyrraedd eu potensial personol a phroffesiynol - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 47.79%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Y ganran o blant yn mynd i'r feithrinfa sydd wedi derbyn proffil 'Me in a Nutshell' gan Weithwyr Cyswllt Teulu, gan gefnogi eu pontio'n effeithiol - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 81%<br>Ardderchog | 82%<br>Ardderchog<br>Gwell |
| Y ganran o rieni sydd wedi dweud am effaith gadarnhaol drwy fynychu Dechrau Da /Amser Rhigwm - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 99%<br>Ardderchog |
| Y ganran o rieni sy'n teithio pellter cadarnhaol drwy fynychu digwyddiadau dysgu strwythuredig drwy Deuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 53%<br>Derbyniol | 58%<br>Da<br>Gwell |
| *Mesur(au) cyflawni a benderfynir* | *Dim data* | *Dim data* |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | Dim data. Covid-19 | 90.8%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth (na 2019) |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | Dim data. Covid-19 | 86%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwaeth (na 2019) |
| Y ganran o ddisgyblion sy'n cyfrannu drwy Llwybrau sy'n cyflawni canlyniad cadarnhaol, gan gynnwys cymwysterau lefel 1 neu 2 - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 88%<br>Derbyniol |
| Y nifer o ysgolion yn darparu addysg drwy addasrwydd a chategorïau cyflwr C a D - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 27<br>Ardderchog<br>Yr un fath | 27<br>Ardderchog<br>Yr un fath |
| Y ganran o ysgolion sy'n gallu cynnal gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y gymuned - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | Aros am ddata. Ar gael yn yr haf |

| | | |
|---|---|---|
| Y ganran o ddisgyblion ysgol sydd wedi gadael Blwyddyn 11 Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, 31 Awst blaenorol yn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 1.7%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | 2.3%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth |
| Y ganran o ddisgyblion Blwyddyn 11 nad oes ganddynt lwybr ôl-16 wedi'i nodi yn ei le - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 4.14%<br>Blaenoriaeth i Wella | Aros am ddata. Ar gael ym mis Tachwedd. |
| Y ganran o blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd â Chynllun Addysg Personol ar waith - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 100%<br>Ardderchog | 96%<br>Da<br>Yn waeth |
| Y ganran o Gynlluniau Llwybr Gadael Gofal cychwynnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd o fewn yr amserlenni statudol, ble mae gan y person ifanc statws gadael gofal - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 20%<br>Blaenoriaeth i Wella | 71%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Cyfanswm y nifer sy'n gadael gofal yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 13 - 24 mis ers gadael gofal - **Cyfrif yn Unig** | 5 | 7 |

**Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol**

| Teitl | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y nifer o blant sy'n cymryd rhan yn y cynnig gofal plant - **wedi ei feincnodi'n lleol** | 635<br>Da | 732<br>Ardderchog<br>Gwell | 477<br>Derbyniol<br>Yn waeth | 521<br>Derbyniol<br>Gwell | 570<br>Ardderchog<br>Gwell |
| Y ganran o rieni a gefnogir drwy waith y Gwasanaeth Cyswllt Teulu sy'n dweud am wahaniaeth cadarnhaol - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd i chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd i chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd i chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd i chwarter 4 2022 i 2023 | 95%<br>Ardderchog |
| Y nifer o ysgolion naill ai dan Adolygiad Estyn, Gwelliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig - **wedi'i feincnodi'n lleol.** | 1<br>Da<br>Yr un fath | 2<br>Da<br>Yn waeth | 2<br>Da<br>Yr un fath | 3<br>Derbyniol<br>Yn waeth | 3<br>Derbyniol<br>Yr un fath |
| Canran y disgyblion yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS sy'n ymateb yn gadarnhaol yn erbyn teimladau disgyblion am yr ysgol - **wedi'i feincnodi yn lleol.** | 87.2%<br>Da Gwell | Dim data. Dim arolwg | Dim data. Dim arolwg | 81.8%<br>Da Yn waeth | Dim data. Dim arolwg |
| Y nifer o leoliadau gwirfoddol / profiad gwaith a gynigiwyd drwy Llwybrau - **wedi'i feincnodi yn lleol.** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Y nifer o gyfleoedd gwirfoddol a gynigiwyd gan y cyngor drwy ei wefan gorfforaethol - **Cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o bobl ifanc yn Sir Ddinbych a gyrhaeddwyd gan y Gwasanaethau Ieuenctid - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd i chwarter 3 2022 i 2023 | Dim data. Newydd i chwarter 3 2022 i 2023 | Dim data. Newydd i chwarter 3 2022 i 2023 | 23.6% Derbyniol | Aros am ddata |
| Y nifer o bobl gydag anableddau dysgu sydd wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol o ganlyniad i gefnogaeth a ddarparwyd drwy wasanaethau Cyfleoedd Gwaith y cyngor (Y Bont, Popty, Meifod, Rheoli Gardd a Grŵp Aur) - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd i chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd i chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd i chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd i chwarter 4 2022 i 2023 | 34 |
| Y nifer o bobl gydag anableddau dysgu mewn gwaith cynaliadwy â thâl o ganlyniad i Wasanaeth Canfod Swydd Cyfleoedd Gwaith y Cyngor - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | 3 |
| Y ganran o fusnesau ar gontract dros £1miliwn sydd wedi ymrwymo i weithio gyda Gyrfa Cymru er budd ein hysgolion a cholegau lleol (drwy ein Polisi Buddion Cymunedol) - **wedi'i feincnodi yn lleol.** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | 100% Ardderchog |
| Y nifer o gyfleoedd gwaith a sicrhawyd / swyddi a ddiogelwyd drwy ein Polisi Buddion Cymunedol ar brosiectau dros £1miliwn - **Cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o bobl sydd, drwy Sir Ddinbych yn Gweithio wedi teithio pellter cadarnhaol ar eu siwrnai tuag at neu i gyflogaeth - **wedi'i feincnodi yn lleol.** | 74% | 88%<br>Ardderchog<br>Gwell | 81%<br>Da<br>Yn waeth | 82%<br>Da<br>Gwell | 82%<br>Da<br>Yr un fath |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da gyda'r prosiectau blwyddyn gyntaf a gweithgareddau a nodwyd i gefnogi'r thema hon, deg yn cael eu nodi 'O fewn targed'. Mae tri o brosiectau yn 'Profi Rhwystrau', yn bennaf oherwydd capasiti staff, ond nid yw hyn yn cynrychioli risg sylweddol i gwblhau'r tasgau hyn yn llwyddiannus. Un maes a adroddir 'Mewn Perygl' ar hyn o bryd yw ein Rhaglen Moderneiddio Addysg (Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru). Mae'r pedwar prosiect o fewn Band B yn profi oedi ar hyn o bryd am nifer o resymau (manylion isod), ac mae cynnydd gyda darparu cyfleusterau gofal plant newydd hefyd wedi oedi.

Un gweithgaredd sy'n weddill yn y fframwaith hwn, sy'n ymwneud â gweithredu'r Contract Cefnogi Llety Brys Dros Dro - fydd yn cynnwys sgiliau bywyd, hamdden a chyflogadwyedd amrywiol a buddion perthnasol i'r thema hon - yn dechrau adrodd yn ystod 2023 i 2024

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu Cynnig Gofal Plant ar gyfer Platfform Digidol Cymru | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Ehangu Dechrau'n Deg | Profi Rhwystrau | |
| Ailgomisiynu Teuluoedd yn Gyntaf | Profi Rhwystrau | |
| Cefnogi'r prosiect rhanbarthol ar y Fframwaith Iechyd Emosiynol, Lles a Gwytnwch fydd yn darparu adnoddau i rieni. | Profi Rhwystrau | |
| Adolygu'r ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar yng nghyd-destun cyllid Trawsnewid Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Addysg Plant yn y Blynyddoedd Cynnar a Gofal | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Cynnwys swyddi newydd yn y Timau Datblygu Iaith Cynnar a Gofal Plant Dechrau'n Deg o fis Ionawr 2023 i gefnogi Ehangu'r Gofal Plant Dechrau'n Deg | Yn unol â'r targed | |
| Mewn partneriaeth gyda GwE, cefnogi ysgolion a lleoliadau nas cynhelir i ddarparu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru i sicrhau bod ein dysgwyr yn dod yn oedolion medrus, uchelgeisiol, mentrus, moesegol, iach a hyderus. | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Gweithredu gofynion y Ddeddf Diwygio ADY o fewn Gwasanaethau Addysg a Phlant i sicrhau cydymffurfiaeth. | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Gweithredu Canllawiau Gwella Ysgolion: Canllawiau ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd | Yn unol â'r targed | |
| Cefnogi ysgolion i ddatblygu gallu digidol drwy arweinyddiaeth addysgol y prosiect EdTech | Yn unol â'r targed | |

| | | |
|---|---|---|
| Rhaglen Moderneiddio Addysg | Mewn Perygl<br>Yn waeth | Addasrwydd safleoedd Plas Brondyffryn a Phentref yn cael ei ystyried (Ysgol Uwchradd Dinbych wedi'i oedi). Cynigion ar gyfer Ysgol Bryn Collen / Gwernant wedi eu cyflwyno, aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru (LIC). Cynnydd yn araf gyda gwaith ar Ganolfan y Dderwen ar ôl i'r contractwr fynd i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Chwefror. Tendr diwygiedig ar gyfer Twm o'r Nant eto dros y rhagolwg, gyda throsglwyddiad ariannol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd (aros am benderfyniad). Oedi yn Ysgol Dewi Sant oherwydd materion draenio, ond mae'r prosiect wedi'i ailgyflwyno ar gyfer y rownd cyllid nesaf. |
| Ysgolion Bro Peilot Ysgol Uwchradd Prestatyn | Yn unol â'r targed | |
| Ymgysylltu â Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod sgiliau a hyfforddiant a sicrhawyd drwy ein Polisi Buddion Cymunedol yn addas ar gyfer y dyfodol ac/neu yn drosglwyddadwy | Yn unol â'r targed | |
| Trwy ein Polisi Buddion Cymunedol, sicrhau gweithdai strategaeth dan arweiniad busnes er budd preswylwyr sy'n ceisio uwchsgilio | Yn unol â'r targed | |
| Datblygu systemau perfformiad a monitro ar gyfer y contract cefnogi Llety Brys Dros Dro wrth iddo ddatblygu, fydd yn cynnwys sgiliau a buddion bywyd, hamdden a chyflogadwyedd amrywiol. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a’r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi’r thema hon:

Cefnogi datblygiad plant blynyddoedd cynnar, ym mis Ionawr, roedd Llyfrgelloedd wedi lansio llyfr newydd Baby Talk: Du a Gwyn, drwy ddigwyddiad Amser Rhigwm Dechrau Da yn Llanelwy yn edrych ar roi’r dechrau gorau i fabanod mewn bywyd drwy ddatblygu sgiliau corfforol a gwybyddol.

Mae gwaith yn parhau ar yr Estyniad gofal plant yn Ysgol Penmorfa, wedi’i ariannu drwy Grant Cyfalaf Dechrau’n Deg Llywodraeth Cymru. Dechreuodd gwaith ym mis Medi 2022 a bydd y prosiect yn cynyddu capasiti darpariaeth gofal plant ym Mhrestatyn.

Mae’r Cyngor wedi buddsoddi £600k mewn gwaith ailwampio yn Ysgol Uwchradd Prestatyn i wella’r amgylchedd dysgu i ddisgyblion. Mae gwaith ar ddiweddaru cyfleusterau gwyddoniaeth bron â chael ei gwblhau, ac yn y cam nesaf bydd yr ysgol yn cael gwneud mwy o waith ailwampio ystafelloedd dosbarth a’r to.

Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, roedd y Cabinet wedi adolygu gwrthwynebiadau i’w Hysbysiad Statudol i gynyddu’r capasiti yn Ysgol Plas Brondyffryn o 116 i 220 disgybl o dan Band B Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd dau wrthwynebiad, yn canolbwyntio ar leoliad yr adeilad (yn hytrach na’r capasiti), nad yw’r Cabinet na’r Cyngor wedi cytuno nac ymrwymo iddo eto. Gan gydnabod y galw am ganiatâd arbenigol, roedd y Cabinet wedi cymeradwyo’r cynnig a nodwyd yn yr Hysbysiad Statudol, gan ganiatáu i’r prosiect ddatblygu i’r cam nesaf.

Ym mis Mawrth, roedd y Cyngor wedi cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddarparu digwyddiadau ‘Hwb i’r Dyfodol’ a anelwyd at bobl ifanc 18-25 oed, i’w helpu i gymryd rheolaeth o’u dyfodol, gan gynnwys cyllid, tai, swyddi, sgiliau a hyfforddiant, lles a byw yn iach. Yn dilyn y digwyddiadau agoriadol hyn, mae mwy o ddigwyddiadau hefyd yn cael eu trefnu i’w cynnal yn ystod misoedd yr haf.

Ym mis Mawrth, roedd y Cyngor yn falch o agor Canolfan Ieuenctid newydd y Rhyl yn swyddogol. Lleolir yn hen Gaffi East Parade y dref (a fu’n wag ers 2015), dechreuwyd gwaith ar y safle ym mis Mehefin 2022. Yn dilyn buddsoddiad o £217k gan y Cyngor a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae’r Ganolfan wedi ei dylunio mewn ymgynghoriad â

phobl ifanc, a bydd yn adnodd amhrisiadwy i alluogi'r cyngor a'i bartneriaid i ymgysylltu a chefnogi pobl ifanc mewn ardal o amddifadedd ac allgau o gymdeithas.

## Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Profi Rhwystrau

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

O fewn y thema hon mae yna nifer o fesurau wedi eu meincnodi yn genedlaethol sy'n rhoi syniad o berfformiad o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae yna rai bylchau wrth i ni aros am gyhoeddiad data cenedlaethol newydd; yn benodol y rhai a ddefnyddir i farnu cyflyrau ein ffyrdd.

O Ebrill 2023, byddwn yn dechrau ar ein rhaglen ail-wynebu blynyddol ar ffyrdd ar draws y sir ble mae eu hoes wedi dod i ben. Byddwn hefyd yn dechrau ar ein rhaglen gwella arwyneb ffyrdd ar nifer o ffyrdd blaenoriaeth uchel, mae hyn yn cynrychioli'r dull mwyaf cost effeithiol o ymestyn ar oes y ffordd. Y prosiect i Ddatblygu Cynllun Cludiant Cynaliadwy (CCC) (i gynnwys Teithio Llesol) a nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol diwethaf. Mae heriau ynghlwm ac er bod yna fesurau i leihau allyriadau carbon a chynyddu pwyntiau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus i gefnogi ein thema gwyrddach, rydym yn datblygu mesurau eraill ar hyn o bryd ar y meysydd blaenoriaeth eraill yn y Cynllun Cludiant Cynaliadwy a ychwanegir at fframwaith rheoli perfformiad y thema hwn maes o law.

Roedd 14 o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych yn parhau yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) yn 2019, heb unrhyw newid o 2014, sy'n parhau'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Mae'r thema hon hefyd yn cynnwys mesurau mewn perthynas â lles personol a chymuned. Mae ein Tîm Datblygu Cymunedol wedi gweld nifer o brosiectau neu grwpiau a gefnogir yn cynyddu'n raddol o 27 am yr un cyfnod y llynedd i 61. Mae gwaith hefyd yn parhau i gynnwys mwy o'n tenantiaid mewn prosiectau cymunedol. "Mae'r nifer o oriau gwirfoddol yn cefnogi gwytnwch cymunedol a gweithgaredd datblygu" yn cael ei ddarparu, am y tro fel amcangyfrif tra ein bod yn datblygu ffordd mwy dibynadwy i fesur oriau gwirfoddol. Bydd mesurau newydd ein gwaith i gefnogi cymunedau i ddatblygu eu sgiliau digidol a hyder yn cael ei gynnwys o fis Ebrill 2023.

Mae ein harolwg rhanddeiliaid yn gofyn i rhanddeiliaid ddweud pa un a ydynt yn cytuno gyda thri datganiad ar gyfer y thema hon.  Roedd 55.7% yn cytuno yn 2022 i 2023 bod gan Sir Ddinbych y seilwaith cymdeithasol oedd ei angen i gefnogi lles personol a chymunedol, a ystyrir yn ‘Dderbyniol’.  Roedd 48.96% yn cytuno fod gan Sir Ddinbych y seilwaith cymunedol (fel cysylltedd band-eang da, rhyngrwyd da neu signal ffôn symudol) i gefnogi cymunedau wedi cysylltu’n dda, cydlynol, sy’n ffynnu ac roedd 29.46% yn cytuno fod gan Sir Ddinbych y seilwaith cludiant a ffyrdd i gefnogi cymunedau sy’n cysylltu’n dda, cydlynol ac sy’n ffynnu. Mae’r ddau fesur yn ‘Flaenoriaeth ar gyfer Gwella’.

Ar gyfer mesurau pellach a gweithgaredd i gefnogi lles, gweler ein thema Iachach, Hapusach a Gofalgar; ar gyfer gweithgaredd ysgolion bro a datblygu cymhwysedd digidol, gweler ein thema Dysgu a Datblygu.

### Mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o’r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Cyflogaeth (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol**. | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yr un fath |

**Mesurau Blynyddol neu Ddwyflynyddol**

| Teitl | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
| --- | --- | --- |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod gan Sir Ddinbych y seilwaith cludiant a ffyrdd i gefnogi cymunedau sy'n ffynnu, cydlynol ac wedi cysylltu'n dda - **wedi ei feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 29.46% Blaenoriaeth i Wella |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod gan Sir Ddinbych y seilwaith digidol (fel cysylltedd band-eang da, rhyngrwyd da neu gysylltiad ffôn symudol) i gefnogi cymunedau sy'n ffynnu, cydlynol ac wedi cysylltu'n dda - **wedi ei feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 48.96% Blaenoriaeth i Wella |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod gan sir Ddinbych y seilwaith cymdeithasol sydd ei angen i gefnogi lles personol a chymunedol - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 55.70% Derbyniol |
| *Mesurau Cynllun Cludiant Cynaliadwy i'w penderfynu* | *Dim data* | *Dim data* |
| Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 2.6% Ardderchog Gwell | Aros am ddata |
| Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ffyrdd dosbarthiadol B; sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 4.03% Ardderchog Gwell | Aros am ddata |
| Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ffyrdd dosbarthiadol C; sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 7.97% Ardderchog Gwell | Aros am ddata |
| Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 - Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | Aros am ddata |
| Canran yr eiddo sy'n derbyn llai na 30Mbps - **Cyfrif yn unig** | Dim data | 4.57% |
| Canran yr eiddo sy'n derbyn llai na 10Mbps - **Cyfrif yn unig** | Dim data | 2.88% |
| Y ganran o ddefnyddwyr llyfrgell sy'n dweud bod defnyddio'r llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau a hyder digidol - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |

| | | |
|---|---|---|
| Y ganran o bobl wnaeth fenthyg dyfais ddigidol o lyfrgell wnaeth ddweud ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau a hyder digidol- **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| *Mesurau Teleofal Digidol i'w penderfynu* | *Dim data* | *Dim data* |
| Y nifer o brosiectau cymunedol a gyd-gynhyrchwyd gyda'r gymuned a'r trydydd sector - **Cyfrif yn Unig** | Dim data | 7 |
| Y nifer o oriau gwirfoddoli yn cefnogi gweithgaredd gwytnwch a datblygu cymunedol - **cyfrif yn unig** | Dim data | 700 (amcangyfrif) |
| Y nifer o gysylltiadau a ddarparwyd drwy wasanaeth gwirfoddol Ar Ymyl Gofal y cyngor - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 795 |

**Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol**

| **Teitl** | **Chwarter 4 2021 - 2022** | **Chwarter 1 2022 - 2023** | **Chwarter 2 2022 - 2023** | **Chwarter 3 2022 - 2023** | **Chwarter 4 2022 - 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| Y nifer o brosiectau neu grwpiau a gefnogir gan y Tîm Datblygu Cymunedol - **Wedi ei feincnodi yn lleol** | 27 | 33 | 55 Ardderchog Gwell | 53 Ardderchog Yn waeth | 61 Ardderchog Gwell |
| Y nifer o denantiaid yn ymwneud â phrosiectau cymunedol - **Cyfrif yn Unig** | Dim data | 0 | 6 | 6 | 6 |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

### Prosiectau neu Weithgareddau

Mae'r thema hon yn cynnwys 19 o brosiectau a gweithgareddau. Mae 13 o brosiectau ar gamau gwahanol, y rhai sy'n fyw yw'r rhai sy'n 'Profi Rhwystrau' neu 'o fewn y targed' ac nid oes unrhyw eithriadau i adrodd arnynt. Mae yna bump o weithgareddau newydd i ddechrau o fis Ebrill 2023.

Mae’r prosiect “Datblygu Cynllun Cludiant Cynaliadwy (i gynnwys Teithio Llesol)” yn y cam achos busnes ac felly nid yw’n cynnwys statws. Bydd y gwaith hwn angen ei reoli’n ofalus i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni gyda chyflymder.

| **Teitl** | **Statws** | **Eithriadau** |
|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio tuag at gyflawni rhwydwaith ffordd o ansawdd i weithredu rhaglen ailwynebu blynyddol ar nifer o ffyrdd ar draws y sir ble mae eu hoes wedi dod i ben. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Byddwn yn gweithredu rhaglen gwella arwyneb ffyrdd ar nifer o ffyrdd blaenoriaeth uchel, ble mae hyn yn cynrychioli'r dull mwyaf cost effeithiol o ymestyn oes y ffordd. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Byddwn yn anelu i gyflawni'r dull mwyaf hyfyw i ddisodli Pont Llanerch. | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Cyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol newydd | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Adolygu, datblygu a moderneiddio gwasanaethau cludiant gwledig, trefol a rhyng-drefol, ble bo'n briodol, gan weithio gyda phartneriaid o fewn y prosiect Metro ac ochr yn ochr â'r diwygio gwasanaethau bws | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Datblygu Cynllun Cludiant Cynaliadwy (i gynnwys Teithio Llesol) | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Canolbwynt Gwefru Cerbydau Trydan Y Rhyl | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Pedair Priffordd Fawr (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Heb ddechrau | Bydd hwn yn brosiect byw o fis Ebrill 2023 |
| Wenfffrwd (De Clwyd Ffyniant Bro Rownd 2) | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Llwybr Teithio Llesol Corwen i Gynwyd Cam 1 (De Clwyd Ffyniant Bro Rownd 2) | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |
| 2a cyfleusterau ymwelwyr a llwybrau beicio newydd parc gwledig Moel Famau (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |
| 1a Sgwâr Sant Pedr (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |

| | | |
|---|---|---|
| Maes Parcio Lôn Las Corwen (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Gwaith modelu traffig a dylunio gwaith gwella traffig (Bwrdd Rhaglen y Rhyl) | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Isadeiledd Cerbydau Trydan - Pwyntiau Gwefru Cyhoeddus | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Darparu'r CDLl newydd, sy'n cyflwyno blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio defnydd tir o fewn y fframwaith polisi cenedlaethol. Bydd y CDLl newydd yn sicrhau bod blaenoriaethau lleol o amgylch newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau cynllunio a phenderfyniadau lleol. | Yn unol â'r targed | |
| Cynnydd tuag at ddigideiddio gwasanaethau teleofal cyn y dyddiad terfyn 2025 ar gyfer dod â gwasanaethau ffôn analog i ben. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu cynllun gweithredu gwytnwch cymunedol | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Disodli ein seilwaith wrth gefn presennol i ddileu dibyniaeth ar dechnoleg o'r gorffennol a gwella gwytnwch. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ar 13 Ionawr 2023 cyhoeddwyd rhybudd tywydd wrth i ni baratoi i gynnal gwaith graeanu'r gaeaf oherwydd y perygl o rew, eirlaw a chawodydd eira. Roeddem hefyd wedi rhoi adnoddau ychwanegol wrth gefn i ymateb i unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â llifogydd.

Roedd gwaith ailwynebu hanfodol wedi'i wneud ar Ffordd Arfordir Y Rhyl A548 a gwaith ailwynebu ar Ffordd Bastion Prestatyn ar ddiwedd Ionawr 2023. Gwnaethom hysbysu'r cyhoedd oherwydd gwaith cynnal a chadw trydanol hanfodol, byddai Stryd y Bont, Dinbych ynghau am bythefnos ar ddiwedd Ionawr a byddai gwasanaethau bws yn cael eu

dargyfeirio o’u llwybr arferol.  Roedd gwaith trwsio cerbytffordd hanfodol ar Fwlch Pen Barras, Moel Famau wedi’i wneud ar ddiwedd Mawrth 2023.

Mewn cydweithrediad gyda Thrafnidiaeth Cymru, gwnaethom gyhoeddi’r gwasanaeth bws TrawsCymru T8 bob awr newydd rhwng Corwen, Rhuthun, Yr Wyddgrug a Chaer a ddechreuodd ar ddiwedd Ionawr.  Ar ddiwedd mis Mawrth gwnaethom gyhoeddi bod y gwasanaeth bws Dyffryn Dyfrdwy, i ddechreu ei drydydd tymor ar 1 Ebrill 2023. Gwasanaeth bws sy’n rhoi’r mynediad gorau i gyrchfannau allweddol yn ardal Llangollen.

Cafodd ymestyn ein hisadeiledd gwefru cerbydau trydan Sir Ddinbych, y canolbwynt gwefru newydd yn y Rhyl, ei gydnabod gan Gymdeithas Cerbydau Trydan Cymru - EVA Cymru fel adnodd gwych ar gyfer bobl leol ac ymwelwyr. Ym mis Mawrth, gwnaethom gyhoeddi’r gwaith mae’r cyngor yn ei wneud ynghyd â KerbPower Ltd, Rhuthun, i ddatblygu a masnachu datrysiad arloesol yn hwb i gerbydau trydan (EV) diolch i gydweithio digidol gydag AMRC Cymru.

Yn ystod y cyfnod gwnaethom ymgynghori ar y nifer o brosiectau newydd.  Ym mis Ionawr, gwahoddwyd preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr â Llangollen i gymryd rhan a dweud eu dweud ar brosiect a anelwyd at hybu a datblygu’r pedair priffordd fawr Llangollen: Camlas Llangollen a Safle Treftadaeth y Byd, hen linell rheilffordd Rhiwabon i’r Bermo, yr Afon Ddyfrdwy a llwybr hanesyddol Thomas Telford, Ffordd Caergybi yr A5. Gwahoddwyd preswylwyr i ddweud eu dweud ar welliannau yn y dyfodol ar y rhwydwaith cerdded a beicio lleol yn Rhuddlan. Ym mis Chwefror, gwnaethom lansio ymgynghoriad ar y Bont–H, y Rhyl a strydoedd cyfagos i’w gwneud yn ardal mwy diogel a chroesawgar i gerddwyr, olwynion a beicio. Ym mis Mawrth, gwnaethom lansio’r nifer o ymgynghoriadau oedd yn gwahodd preswylwyr i rannu eu barn a’u syniadau ar welliannau bwriedig i’r rhwydwaith beicio, olwynion a beicio lleol ar draws Prestatyn, y rhwydwaith cerdded, olwynion a beicio lleol yn Ninbych a cherdded, olwynion a beicio yn Brook Street, Llangollen.

## Sir Ddinbych mwy gwyrdd

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Mewn Perygl

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hymrwymiad di-garbon net fel sefydliad erbyn 2030 yn parhau i fod yn her ac ni fydd yn cael ei gyflawni'n hawdd. Mae bod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 yn edrych yn fwy addawol. Mae Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol trosfwaol 2021 i 2030 yn ystod y flwyddyn yn dangos 'profiad rhwystrau' oherwydd oedi mewn darparu prosiect, sy'n golygu y bydd oedi mewn gwireddu budd hefyd.

Mae yna nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n cael eu defnyddio i farnu perfformiad y Cyngor o ran cyflawni ei nodau ar gyfer 2030, gan gynnwys: lleihau'r allyriadau carbon y mae'r Cyngor yn eu rhyddhau o wahanol ffynonellau, cynyddu'r carbon sy'n cael ei ddal a'i storio yn y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno/yn ei brydlesu ac yn ei reoli, a chynyddu'r cyfoeth o rywogaethau ar y tir y mae'r Cyngor yn berchen arno/yn ei brydlesu ac yn ei reoli. Mae canran tir sy'n eiddo ac yn cael ei weithredu gan y cyngor yng nghategoriau uchaf cyfoeth rhywogaeth wedi cynyddu i 42%, sy'n nodi ein bod yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at fod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030. Mae sefyllfa Di-garbon Net y Cyngor yn 12,062 tunnell, sydd erbyn 2030, angen bod yn ddim tunnell. Yn ychwanegu at y sefyllfa hon mae 15,090 tunnell o allyriadau carbon (0.5% yn is na'r flwyddyn ddiwethaf) a 3,028 tunnell o allyriadau carbon (0.6% yn is na'r llynedd). Mae ein cyfanswm amsugno carbon yn is na'r llynedd oherwydd bod y cyfraniad mwyaf wedi'i gyrraedd unwaith mae'r coetir wedi'i sefydlu o flwyddyn 20 ymlaen. Yn cyfrif am allu coetir newydd y Cyngor i amsugno carbon ar ôl aeddfedu (20 mlynedd a mwy), mae sefyllfa Di-garbon Net y Cyngor yn 11,932 tunnell (15,090 o allyriadau carbon a 3,158 amsugno carbon; 0.8% yn is na'r llynedd). Gan ystyried y perfformiad addasu aeddfedrwydd hwn, mae'r sefyllfa Di-garbon Net 11,932 tunnell yn nodi bod cynnydd annigonol yn cael ei wneud tuag at gyflawni Cyngor Di-garbon Net erbyn 2030. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddarparu data ar gyfer lleihau carbon o'n mesur cadwyn gyflenwi ar gyfer 2022 i 2023 ac adroddir arno yn ein hadroddiad perfformiad Ebrill i Fehefin 2023.

Bydd ein harolwg rhanddeiliaid nawr, bob blwyddyn, yn gofyn i rhanddeiliaid ddweud pa un a ydynt yn cytuno bod Sir Ddinbych yn wydn yn erbyn effeithiau newid hinsawdd a gostyngiad natur. Gofynnwyd y cwestiwn hwn gyntaf yn ystod 2022 i 2023. Roedd 43.61% o ymatebwyr wedi cytuno bod hwn yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella.'

Ar gyfer mesurau a gweithgaredd pellach i gefnogi mentrau gwyrddach, gweler ein thema Tai ar gyfer effeithlonrwydd ynni a'n thema Cysylltiedig ar gyfer teithio cynaliadwy a phwyntiau gwefru cerbydau trydan.

### Mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| Teitl | 2014 | 2019 |
|---|---|---|
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Amgylchedd Corfforol (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol**. | 2%<br>Da<br>Gwell | 2%<br>Da<br>Yr un fath |

## Mesurau Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
|---|---|---|
| Y ganran o randdeiliaid sy’n cytuno bod Sir Ddinbych yn wydn yn erbyn effeithiau newid hinsawdd a dirywiad natur - **wedi’i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 43.61%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Di-Garbon Net - Cyfanswm tunelledd carbon sy’n cael ei allyrru a’i amsugno gan y Cyngor (ac eithrio’r gadwyn gyflenwi)-**wedi’i feincnodi yn lleol** | 12,120<br>Derbyniol<br>Yn waeth | 12,062<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth |
| Y ganran o dir y mae’r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau - **wedi’i feincnodi yn lleol** | 40.62%<br>Derbyniol<br>Gwell | 42.00%<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi’i allyrru (Corfforaethol) oherwydd cadwyni cyflenwi - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 2,699<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | 2,302<br>Derbyniol<br>Gwell |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi’i allyrru (Corfforaethol) oherwydd teithio at ddibenion busnes- **wedi’i feincnodi’n lleol** | 163<br>Ardderchog<br>Gwell | 251<br>Ardderchog<br>Yn waeth |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi’i allyrru (Corfforaethol) oherwydd cadwyni cyflenwi - **wedi’i feincnodi’n lleol** | 31,409<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | Aros am ddata |
| Gallu (mewn MW) o offer ynni adnewyddadwy a osodwyd yn ein hadeiladau (eiddo a gweithredu) - **Cyfrif yn Unig** | 1MW | 1MW |
| Canran y gwastraff trefol a ailgylchwyd, a ailddefnyddiwyd neu a gompostiwyd - **Meincnodi yn genedlaethol** | 67.67%<br>Ardderchog | Aros am ddata |
| Y nifer o eiddo gyda risg uchel neu ganolig o lifogydd (ar draws CSDd) - **Cyfrif yn Unig** | 1,171 | Aros am ddata |
| Ardal rhostir (grug, eithin a rhedyn) a reolir yn flynyddol - **wedi’i feincnodi yn flynyddol** | 20 hectar. | 80 hectar.<br>Ardderchog<br>Gwell |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae'r thema hon yn cael ei chefnogi gan y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol trosfwaol 2021 i 2030 ac 19 prosiect a gweithgaredd arall.

Mae dau brosiect yn cynnwys statws 'Mewn perygl' ar hyn o bryd. Mae mater allweddol presennol y prosiect Gweithrediadau Gwasanaeth Gwastraff Ailfodelu sydd angen ei ddatrys y ffordd ymlaen gyda chyflawni Cam 2 Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff RL Davies and Sons Ltd yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn wirfoddol ar 16 Chwefror 2023.

Mae'r prosiect Dolydd Blodau Gwyllt hefyd 'Mewn Perygl' oherwydd pryderon ynglŷn â gallu a chynnydd prosiect yn gyffredinol. Mae cyfarfod adolygu prosiect wedi'i gynnal, cytunwyd ar y ffordd ymlaen ac mae cynllun yn cael ei sefydlu. Unwaith y bydd y cynllun yn ei le ac yn cael ei gyflawni, bydd statws y prosiect hwn yn gwella. Wedi dweud hynny, mae tymor 2023 i 2024 wedi dechrau'n swyddogol. Mae safleoedd dolydd blodau gwyllt eleni wedi eu cwblhau ac mae nifer y safleoedd wedi cynyddu 40%, sy'n gyflawniad gwych.

Mae'r ddau Gynllun Gwella Amddiffyn yr Arfordir ar gyfer Canol y Rhyl a Chanol Prestatyn yn parhau 'O fewn targed' ac mae yna weithgaredd newydd i ddatblygu Strategaeth Llifogydd newydd ar gyfer y sir i ddechrau yn Ebrill 2023.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Economaidd 2021 - 2030 | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Lleihau carbon mewn adeiladau | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Fflyd Corfforaethol Gwefru Cerbydau Trydan a Phrynu Cerbydau Trydan, Cam 3 | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |
| Atafaeliad carbon ar feddiannau tir presennol | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Pryderon am allu a chynnydd prosiect yn gyffredinol. |
| Cadwraeth Natur yn Fferm Green Gates, Llanelwy | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Newid ymddygiad ar gyfer gweithredu newid hinsawdd ac adfer natur | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |
| Lleihau carbon drwy gaffael | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |
| Caffael tir at ddibenion carbon ac ecolegol 2023 i 2024 | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Gwneud gwaith ar glefyd coed ynn yn unol â'r Cynllun Gweithredu ar draws y sir | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Byddwn yn gwella bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau ym mhob maes gwasanaeth y Cyngor | Newydd Ebrill 2023 | |
| Isadeiledd Gwyrdd yn y Rhyl | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Ailfodelu Gweithredoedd Gwasanaeth Gwastraff | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Mater presennol allweddol sydd angen ei ddatrys yw ffordd ymlaen i gyflawni Cam 2 o'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff. |

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn yn gweithio tuag at leihau'r defnydd o blastig o fewn Cyngor Sir Ddinbych, gan gynnwys Arlwyo a Chaffael mewn ysgolion, ynghyd ag unrhyw waith yn y dyfodol (gan gynnwys ei Fodelau Cyflawni Amgen (MCA) fel Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Darparu prosiectau gwella ac ehangu ar gyfer rhandiroedd Cyngor Sir Ddinbych | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Datblygu Strategaeth Lifogydd newydd ar gyfer y sir | Newydd | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Cynllun Gwella Amddiffyn Arfordir Canol Prestatyn | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Cynllun Gwella Amddiffyn Arfordir Canol y Rhyl | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| 2b cyfleusterau ymwelwyr newydd a rheoli llifogydd parc gwledig Loggerheads (Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd Rownd 2) | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Ym mis Ionawr, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Barodwydd Sector Cyhoeddus Archwilio Cymru ar gyfer Di-garbon Net erbyn 2030 er gwybodaeth.  Roedd yr Aelodau wedi cytuno i gynnwys y papurau ac ymateb swyddog ar raglen cyfarfod nesaf y pwyllgor ar gyfer trafodaeth.

Ym mis Chwefror, derbyniodd y Cabinet adroddiad am y broses cynllunio ynni rhanbarthol a chynnwys blaenoriaethau mewn camau ac ymyrraeth strategol. Roeddent yn cymeradwyo Strategaeth Ynni Gogledd Cymru a'r Cynllun Gweithredu cysylltiol ac yn nodi dechrau Cynllunio Ynni Ardal Lleol yn Sir Ddinbych.

Ym mis Mawrth, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau adroddiad ar gynnydd Prosiect Rhostir Sir Ddinbych, oedd yn amlinellu'r cynnydd hyd yma i gyflawni amcanion Prosiect Coetir Sir Ddinbych. Cafodd diweddariad ar Brosiect Ailfodelu Gwasanaeth Gwastraff ei

gyflwyno hefyd, oedd yn gofyn am sylwadau'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed hyd yma i weithredu'r model gwasanaeth gwastraff newydd.

Ar ddiwedd Mawrth, derbyniodd y Cabinet, adroddiad am y penderfyniad i derfynu'r contract rhwng Cyngor Sir Ddinbych ac R L Davies & Sons Ltd ble roedd RLD i fod yn brif gontractwr Cam 2 y Depo Gwastraff ar Ystad Colomendy, Dinbych. Daeth hyn yn dilyn newyddion y byddai RLD yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr.   Mynegodd y Cabinet eu tristwch fod RLD, a oedd yn fusnes lleol a hirsefydlog, wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, ac roeddent yn meddwl am y gweithwyr a phawb a oedd wedi'u heffeithio gan hyn.

Ym mis Ionawr, roedd prif brosiect bioamrywiaeth ar draws yr ysgol gyda disgyblion yn Ysgol Bro Cinmeirch yn Llanrhaeadr, ar y gweill gyda phlannu'r cyntaf o filoedd o goed a ddosberthir ar draws ysgolion Sir Ddinbych i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur. Fel rhan o Brosiect Creu Coetir ehangach y Cyngor, mae bron 3,000 o goed gan gynnwys gwrychoedd bywyd gwyllt i helpu natur i adfer wedi eu plannu o amgylch safle hanesyddol yn y Rhyl. I ddathlu plannu yng Nghorwen cafodd coeden Dderwen digoes ei phlannu i nodi eu cefnogaeth i natur leol fel rhan o'r prosiect ehangach hwn.

I gefnogi ein hymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy, gwnaethom ddechrau ar brosiect newydd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor a Chanolfan Ecoleg a Hydroleg y DU i edrych ar gysyniadau'r cyhoedd o newidiadau i fannau gwyrdd yn y Rhyl a sut mae'r wybodaeth hon yn gallu datblygu gwaith adfer natur yn y dyfodol.

Hefyd, roeddem yn cefnogi trefn rheoli cynaliadwy drwy gyflwyno praidd o ddefaid ar lechwedd Prestatyn i gefnogi cynnal yr amrywiaeth o flodau gwyllt a bywyd gwyllt sy'n rhoi'r cymeriad arbennig i'r safle.    Mae cyflwyno'r anifeiliaid yn rhan o'r prosiect 'Cyfleoedd Unigryw - Datrysiadau Tirlun Gogledd Ddwyrain Cymru a chafodd ei gefnogi a'i ariannu drwy Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Dechreuodd gwaith i ailagor Gwarchodfa Natur Pwll Brickfield i gefnogi iechyd a lles bobl tra hefyd yn cefnogi bioamrywiaeth leol.  Ymunodd myfyrwyr y Rhyl sydd ar y Cwrs Llwybr i Adeiladu â staff Cefn Gwlad hefyd i  adeiladu ffens bren newydd wrth y fynedfa i safle'r berllan sydd wedi'i hailddatblygu. Mae staff Gwasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio'n agos gyda grŵp cymunedol sydd y tu ôl i Warchodfa Natur Rhuddlan i dyfu amgylchedd sy'n ffynnu o ran bioamrywiaeth ac i ymwelwyr ei fwynhau.

Daeth loriau bin trydan newydd ar waith ac roedd Gwasanaeth Llyfrgell Cartref, sy'n cefnogi'r sawl sy'n methu cyrraedd y llyfrgell oherwydd salwch, anabledd neu gyfrifoldebau gofal, hefyd wedi derbyn eu fan drydan gyntaf newydd.

Cafodd enillydd cystadleuaeth Cardiau Post o'r Dyfodol Cyngor Sir Ddinbych ei gyhoeddi yn apelio am gymorth i roi dyfodol i anifeiliaid. Cafodd holl geisiadau buddugol eu darllen yn y Cyngor Llawn ym mis Chwefror. Hefyd, cynhaliodd y cyngor sesiwn ymgysylltu gyda disgyblion yn Ysgol Uwchradd Prestatyn i ddangos pa mor bwysig y mae newid hinsawdd wedi dod ym mywyd gweithredu bob dydd y cyngor a'i wasanaethau.

Mae gwirfoddolwyr yn ein helpu i ailddechrau prosiectau bioamrywiaeth i fonitro dyfrgwn a gwiber. Roeddem hefyd yn chwilio am fwy o wirfoddolwyr fel Ceidwaid Gwirfoddol ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i helpu i ofalu am yr ardal mae'n ei chynnwys ac ysbrydoli eraill am y tir.

Mae gwrychoedd yn gynefinoedd hanfodol ar gyfer bywyd gwyllt a staff Gwasanaeth Cefn Gwlad a daeth gwirfoddolwyr ynghyd ym mis Chwefror i helpu myfyrwyr Coleg Llandrillo i ddysgu'r grefft o blygu gwrych drwy wella rhan o'r gwrych yn Ffos y Rhyl.

Ym mis Mawrth, arweiniodd Gwasanaeth Cefn Gwlad sesiwn i wirfoddolwyr greu llochesau nythu newydd ar gyfer cywion môr-wenoliaid bychain syn cael eu geni yng Ngronant. Roedd y gwaith allweddol yn ddigwyddiad ar y cyd rhwng Grŵp Môr-wenoliaid Bychain Gogledd Cymru a Natur er Budd Iechyd. Ymwelodd y naturiaethwr Iolo Williams â'r nythfa Môr-wenoliaid Bach yng Ngronant yn ddiweddar ar gyfer ei gyfres newydd, 'Iolo's Borderlands'.

Gwnaethom atgoffa'r preswylwyr am ein harwyddion 'gwenyn' ledled y sir sy'n dangos fod Cyngor Sir Ddinbych wedi cael ei wobrwyo gyda statws Cyfeillgar i Wenyn gan Lywodraeth Cymru a dyma brif arwydd y Cyngor ar gyfer y Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt. Rydym hefyd yn gofyn i ymwelwyr fod yn ystyriol wrth ymweld â mannau harddwch y sir ac yn cynnwys neges sy'n cefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr am bobl yn cadw cŵn ar dennyn wrth gerdded yng nghefn gwlad gyda da byw, yn arbennig yn ystod tymor wyna.

Roedd ein gwaith rheoli Clefyd coed ynn yn parhau gyda gwaith yn cael ei wneud ym mharc gwledig Loggerheads ym mis Ionawr ac yng Nghorwen ym mis Chwefror. Wrth i'r rhaglen torri coed angenrheidiol hwn ddigwydd, bydd y Cyngor yn plannu mwy o goed, o rywogaethau eraill, mewn lleoliadau addas er mwyn lleihau'r effaith ar y tirlun a bioamrywiaeth.

Ar ddechrau mis Chwefror, roeddem yn atgoffa'r cyhoedd am gyngor a gwybodaeth i ganfod sut mae eu gwastraff bwyd yn creu ynni wrth i ni ymuno gydag Ailgylchu Cymru i gefnogi eu Bwriad i Gymru gyrraedd rhif un.

Mae ein Tîm Ynni Adran Eiddo wedi parhau i fynd i'r afael â lleihau ôl-troed carbon ysgolion Sir Ddinbych. Mae gwaith wedi'i wneud mewn deg ysgol yn Sir Ddinbych i wneud gwaith lleihau carbon ar y safle gan gynnwys insiwleiddiad atig, gosod: solar PV, goleuadau LED,pympiau gwres ffynhonnell aer, storfa batris, boeleri newydd, gwell rheolaethau gwresogi ac ychwanegu gwresogyddion dŵr ynni effeithlon. Mae'r gwaith hwn hyd yma wedi arwain at ostyngiad mewn cyfuniad o allbwn carbon o tua 64 tunnell.

Cafodd fforwm llwyddiannus ei gynnal ym mis Mawrth, yn y Canolbwynt Cymunedol yn Llysfasi ar gyfer Cefnogwyr AHNE, Cynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau Lleol.

Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi cymryd rhan yn y rhaglen Dylunio'n Wahanol gan y Cyngor Dylunio. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar y Bws Benthyg a sut y gall cymunedau sirol gwahanol elwa ohono.

## Sir Ddinbych mwy teg, diogel a chyfartal

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Mewn Perygl

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae'r mwyafrif o'r mesurau isod yn newydd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ac ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023 i 2024.

Roedd 36.23% o rhanddeiliaid yn cytuno gyda'r datganiad bod bobl yn Sir Ddinbych yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac yn cael mynediad i gyfleoedd i hybu eu lles a chydlyniant cymunedol, 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Roedd y ganran o blant mewn tlodi yn Sir Ddinbych wedi gostwng o 34.9% yn 2021 i 28.1% yn 2022. Adroddwyd ar y ffigyrau hyn ym mis Mawrth 2023, yn seiliedig ar adroddiad ystadegol cyllid a thollau EF / yr Adran Gwaith a Phensiynau, 'Plant mewn teuluoedd incwm isel: ystadegau ardal leol' - mae ffigyrau ar gael blwyddyn ymlaen llaw. Roedd 28% o blant Cymru ar gyfartaledd mewn tlodi yn 2022, felly rydym ni fel Cyngor, 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Yn 2019, roedd 10% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran diogelwch cymunedol. Roedd 12% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% mwyaf difreintiedig (yn gyffredinol) yng Nghymru.

O'i gymharu â'r llynedd, roedd Sir Ddinbych yn parhau i weld gostyngiad yn y nifer o ddioddefwyr ailadroddus o droseddau domestig ar gyfer Ionawr i Mawrth 2023, o 690 i 537. Roedd hyn yn cyfateb i 22.2% o ostyngiad yn Sir Ddinbych o'i gymharu â Gogledd Cymru sydd; ar y cyfan, wedi gweld 4.5% o ostyngiad ar gyfer yr un cyfnod. O ran aildroseddwyr cam-drin domestig ar gyfer Ionawr i Mawrth 2023, roedd yna ostyngiad o 74 o droseddwyr i 56. Roedd hyn yn cyfateb i 24.5% o ostyngiad tra bod Gogledd Cymru yn dangos cynnydd o 0.3%.

Mae cwblhau ein modiwlau e-ddysgu trosedd casineb, caethwasiaeth fodern a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (nid yn orfodol) yn ddangosyddion newydd ar gyfer perfformiad ar hyn o bryd yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella' neu'n 'Dderbyniol'.

Arhosir am rywfaint o ddata ar gyfer yr adroddiad hwn a dderbynnir ar gyfer ein hadroddiad nesaf. Gwybodaeth arall, fel ‘y nifer o achosion a adroddwyd o fwlio cysylltiedig â rhagfarn mewn ysgolion’ a ddisgwylir ym mis Hydref 2023.

Ar gyfer mesurau a gweithgaredd pellach i gefnogi lles, gweler ein thema Iachach, Hapusach a Gofalgar . Mae yna wybodaeth ychwanegol i gefnogi tai a digartrefedd yn ein thema Tai ; mesurau a gweithgareddau i gefnogi cyflogaeth ac amddifadedd ein thema Ffyniannus ac addysg a gwirfoddoli yn ein themau Dysgu a Thyfu a Chysylltu .

### Mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mae data Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn cael ei gyhoeddi bob pedair i bum mlynedd.

| **Teitl** | **2014** | **2019** |
|---|---|---|
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o’r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran **Diogelwch Cymunedol** (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol.** | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | 10%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o’r mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) - **Meincnodi yn Genedlaethol**. | 14%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Yn waeth | 12%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |

**Mesurau Blynyddol neu Ddwyflynyddol**

| Teitl | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
|---|---|---|
| Canran y rhanddeiliaid yn cytuno bod bobl yn Sir Ddinbych yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac yn cael mynediad i gyfleoedd i hybu eu lles a chydlyniant cymunedol - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 36.23% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi ymgymryd â'r modiwl e-ddysgu trosedd casineb (nid yw'n orfodol) - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | 7% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi ymgymryd â'r modiwl e-ddysgu caethwasiaeth fodern (nid yw'n orfodol) - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | 25% Blaenoriaeth i Wella |
| Canran y staff o fewn CSDd sydd wedi cwblhau modiwl e-ddysgu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | 82% Derbyniol |
| Y nifer o achosion o fwlio sy'n ymwneud â rhagfarn mewn ysgolion - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | Aros am ddata. Disgwylir ym mis Hydref 2023 |
| Y ganran o oedolion sy'n dweud bod eu llyfrgell yn le pleserus, diogel a chynhwysol - **wedi'i feincnodi yn lleol** | 93 Ardderchog Yr un fath | 93 Ardderchog Yr un fath |
| Y ganran o blant mewn tlodi yn Sir Ddinbych - **wedi**'i **feincnodi yn genedlaethol** | 34.9% Blaenoriaeth i Wella | 28.1% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Y ganran o blant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 21.1% | Aros am ddata |
| Mesurau holl aelwydydd ac aelwydydd diamddiffyn sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru (daliwr lle) - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Y ganran o bobl ifanc cymwys sy'n gadael gofal yn derbyn y peilot incwm sylfaenol gan Lywodraeth Cymru - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | Dim data. Cynllun peilot i gael ei gynnal ar draws Cymru | Aros am ddata |

| | | |
|---|---|---|
| Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd o amddifadedd sylweddol - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | 9.1% | Aros am ddata |
| Y nifer o deuluoedd sydd wedi adsefydlu o fewn Sir Ddinbych - **Cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 75 |
| Y nifer o Blant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain yn Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |

## Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

| Teitl | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad oeddent yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi'i fesur yn y flwyddyn hyd yma) - **Cyfrif yn unig** | 690 | 126 | 266 | 386 | 537 |
| Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro (3 neu fwy mewn 12 mis) - **cyfrif yn unig** | 74 | 11 | 28 | 42 | 56 |
| Y ganran o ddisgyblion ysgol gynradd cymwys sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim (Sir Ddinbych) - **Cyfrif yn unig** | | | | 68.3% | Aros am ddata |
| Y ganran o ddisgyblion ysgol uwchradd cymwys sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim (Sir Ddinbych) - **Cyfrif yn unig** | | | | 80.52% | Aros am ddata |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae yna 21 prosiect wedi eu rhestru o fewn y thema hon yn y Cynllun Corfforaethol. Mae pump wedi dechrau eisoes ac ‘O fewn Targed’. Un gweithgaredd i ‘Gefnogi amrywiaeth ac ymgysylltu drwy gynnwys y fframwaith ar ddull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol ‘Mewn Perygl’. Bu hysbysiad diweddar o ostyngiad mewn arian grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi’r gwaith hwn, a all gyfaddawdu neu gwtogi’r gwaith hwn. Bydd y 15 prosiect arall yn dechrau yn ystod 2023 i 2024.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Ymgymryd â gwaith ataliol, mewn partneriaeth gyda Thrwyddedu'r Heddlu a Thrwyddedu'r Awdurdod Lleol, mewn perthynas ag eiddo busnes (gan gynnwys gwerthu i blant iau, alcohol, tybaco ac e-sigaréts. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu a darparu digwyddiadau cymunedol codi ymwybyddiaeth Sipsi / Roma a Theithwyr | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Prynu camerâu ANPR - Prynu chwe chamera gwyliadwriaeth manyleb ANPR arbenigol y gellir eu hadleoli a fydd yn ein galluogi i fonitro a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â mannau problemus o ran troseddau amgylcheddol. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Gweithio mewn partneriaeth i ymestyn y cynnig Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn Sir Ddinbych | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Ymrwymo i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru drwy Gynlluniau Busnes Gwasanaeth | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Cyflawni'r addewid i hybu dim hiliaeth yn Sir Ddinbych | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| *Hybu i ysgolion Rhaglen Saesneg fel Iaith Ychwanegol o ran mynd i'r afael â hiliaeth a sicrhau bod polisïau gwrth-hiliaeth mewn ysgolion wedi eu diweddaru (mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am ARWAP)* | Heb ddechrau | *Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gwmpasu* |
| Cynnwys a chefnogi tenantiaid sy'n fwy tebyg o brofi anghyfartaledd cymdeithasol i gael mynediad i wasanaethau a chymryd rôl weithredol yn eu cymuned. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Parc Bruton, y Rhyl (gweithio gyda phreswylwyr Parc Bruton i fwyhau lles cymunedol). | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu canolfannau Croeso Cynnes ledled y Sir. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Cefnogi amrywiaeth ac ymgysylltu drwy gynnwys y fframwaith ar ddull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol. | Mewn Perygl | Hysbysiad diweddar o ostyngiad mewn arian grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith hwn, a all gyfaddawdu neu gwtogi'r gwaith hwn. |
| Adolygu a diwygio Cyngor yr Ifanc ar gyfer Sir Ddinbych. | Yn unol â'r targed | |
| Ymgorffori Strategaeth Gwrth-fwlio CSDd ledled pob ysgol. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Urddas Mislif | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Ymestyn y Rhaglen Natur er budd Iechyd o fewn Sir Ddinbych sy'n cynnig sawl budd - lleihau ynysiad, gwella iechyd, sgiliau gwledig, iechyd a theithiau natur, celf a chrefft) | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu rhwydwaith i gynnwys pobl a grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig (drwy'r Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol) | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Prydau Ysgol am Ddim Cyffredinol i holl Ddisgyblion Ysgol Gynradd | Yn unol â'r targed | |
| Datblygu a darparu Strategaeth Fwyd a Rhwydwaith Partneriaeth Fwyd ar draws y sir (gan gynnwys prosiect archfarchnad cymdeithasol - Cogog) o amgylch Sir Ddinbych. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |
| Datblygu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol i gefnogi plant i fwyta'n dda | Yn unol â'r targed | |
| Datblygu'r cynnig, drwy Sir Ddinbych yn Gweithio ar gyfer holl ffoaduriaid sydd wedi setlo yn Sir Ddinbych i dderbyn cefnogaeth mentor cyflogaeth (mae holl oedolion yn ymwneud â dosbarthiadau Saesneg fel Ail Iaith (ESOL) | Yn unol â'r targed | |
| Mewn partneriaeth gyda Hamdden Sir Ddinbych Cyf a'r Trydydd Sector, sicrhau cyllid ar gyfer gweithgareddau creadigol a diwylliannol i weithio gyda theuluoedd sydd wedi ailsefydlu yn y sir. | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau o Ebrill 2023 |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Mewn cydweithrediad â Hey Girls, ac wedi'i ariannu gan Gronfa Urddas Mislif Llywodraeth Cymru 2022/23, mae Cyngor Sir Ddinbych yn darparu gwasanaeth tanysgrifio ar gyfer pobl ifanc yn Sir Ddinbych i helpu i fynd i'r afael â thlodi mislif. Mae'r tanysgrifiad ar gael i holl breswylwyr yn Sir Ddinbych a phobl ifanc sydd ar gofrestr ysgol yn Sir Ddinbych, ac yn cynnig cynnyrch ecogyfeillgar am ddim a dim plastig y gellir ei ailddefnyddio neu rhai untro. Os ydynt dros 18 oed, mae'n rhaid i gyfranogwyr fyw yn Sir Ddinbych a chael budd-dal incwm isel megis credyd cynhwysol, cymhorthdal incwm, credyd treth plant i fod yn gymwys.

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Sir Ddinbych yn Gweithio wybodaeth am y gefnogaeth mae'n ei darparu i gefnogi ac arwain unigolion, ar lwybr sy'n cwrdd â'u hanghenion a'u dyheadau eu hunain, i'w harwain yn ôl i gyflogaeth gobeithio. Un enghraifft oedd cleient gyda pherthynas afiach ag alcohol, gan arwain at effaith andwyol ar ei iechyd meddwl, cyfnodau o ddigartrefedd a chyfnodau yn y carchar oherwydd ei ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cefnogaeth yn hanfodol mewn achosion o'r fath, ac mae ansawdd bywyd y cleient wedi gwella'n sylweddol oherwydd cymorth i sicrhau llety â chymorth a chwnsela ar gyfer ei ddibyniaeth ar alcohol.

Ym mis Mawrth, roedd y Cyngor yn croesawu newyddion y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cyllid ar gael i 'wneud taliadau prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys ar gyfer gwyliau'r Pasg a Sulgwyn ynghyd â Gŵyl y Banc Mai a Gŵyl y Banc y Coroni.

Fel rhan o ymgyrch ehangach i gefnogi ein preswylwyr yn ystod y cyfnodau anodd hyn, roedd y cyngor yn codi ymwybyddiaeth am Gredyd Pensiwn. Mae'r Cyngor yn ymwybodol nad yw pawb yn hawlio hwn ar draws Cymru ac yn dymuno gwneud ei orau i fynd i'r afael â hynny yn Sir Ddinbych. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, sy'n darparu cefnogaeth ychwanegol i'n preswylwyr i wirio eu bod yn gymwys a gwneud cais os byddant angen.

## Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mesurau: Prosiectau

Derbyniol: Mewn Perygl

### Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Bydd ein harolwg rhanddeiliaid nawr, bob blwyddyn yn gofyn i rhanddeiliaid ddweud pa un a ydynt yn cytuno bod Sir Ddinbych yn sir ble mae'r Gymraeg yn fyw, yn ffynnu a bod yna dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac asedau naturiol yn Sir Ddinbych yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial. Cafodd y cwestiwn hwn ei ofyn gyntaf yn ystod 2022 i 2023. Roedd bron 55% o ymatebwyr yn cytuno bod y Gymraeg yn iaith fyw, sy'n ffynnu yn Sir Ddinbych a ystyrir yn 'Dderbyniol'. Roedd 44% o breswylwyr yn cytuno bod treftadaeth ddiwylliannol ac asedau naturiol Sir Ddinbych yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial ac yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Roedd y nifer o bobl oedd yn gallu siarad Cymraeg (3 oed neu hŷn) ar ddiwedd Mawrth 2022 yn 35,900 oedd yn 38.9%. Roedd hyn yn cymharu gyda 30,400 (33.3%) erbyn diwedd Mawrth 2021. Mae cyfran y boblogaeth sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol ac yn gallu siarad mwy nag ambell air o Gymraeg yn tueddu i fod yn is, sef 15% (pob oedran) yn 2021 i 2022. Ar ôl cytuno arnynt, bydd mesurau newydd i fonitro effeithiolrwydd ein Strategaeth Iaith Gymraeg a Pholisi Iaith Gymraeg yn cael eu datblygu ac adrodd arnynt mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Roedd 27.4% o ddisgyblion blwyddyn un wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn academaidd 2021 i 2022, a 0.4% o gynnydd ers y flwyddyn flaenorol. Ein huchelgais yw cynyddu hyn i 32% erbyn 2027 (diwedd y Cynllun Corfforaethol newydd hwn), gan weithio tuag at 40% erbyn 2032. Mae ein huchelgais wedi ei seilio ar ragamcanion cyfredol sy'n cynnwys rhagdybiaethau yn ymwneud â thwf yn y galw mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol a thrawsnewid ysgolion cyfrwng Saesneg presennol i gynnig cyfnod sylfaen cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn cadarnhau ein trothwy ar gyfer ymyrraeth e.e. beth fydd yn cynnwys 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' yn ein hadroddiad nesaf.

Erbyn diwedd Mawrth 2023, roedd 73% o staff wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg. Mae perfformiad yn cael ei ystyried yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Roedd 4,350,000 o dwristiaid wedi ymweld â Sir Ddinbych yn 2020, sy'n gynnydd ers y flwyddyn flaenorol gan adlewyrchu'r amhariad oherwydd cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol Covid-19. Mae'r ffigwr - er yn well - yn parhau'n is na'r 5,990,000 o ymwelwyr yn Sir Ddinbych yn 2018. Mae data bob amser yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw a disgwylir data newydd yn yr haf 2023.

Ar gyfer mesurau pellach a gweithgaredd i gefnogi'r Gymraeg a diwylliant (er enghraifft, ein haddewid i fod yn agos at ein cymunedau), gweler ein thema cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda

### Mesurau Blynyddol neu Ddwyflynyddol

| Teitl | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
|---|---|---|
| Canran y rhanddeiliaid sy'n cytuno fod Sir Ddinbych yn sir ble mae'r Gymraeg yn iaith fyw, sy'n ffynnu - **Wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 54.74% Derbyniol |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno bod treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac asedau naturiol Sir Ddinbych yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 44.01% Blaenoriaeth i Wella |
| Y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (3 oed neu hŷn) - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | 35,900 Derbyniol Gwell | Aros am ddata |
| Y ganran o ddisgyblion blwyddyn 1 sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg - **cyfrif yn unig** | 27% | 27.4% Trothwyon ar y gorwel |
| *Strategaeth y Gymraeg a mesurau Polisi Iaith Gymraeg (daliwr lle) i'w penderfynu* | *Dim data* | *Dim data* |
| Incwm treftadaeth a gynhyrchwyd dros y flwyddyn (£) - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| STEAM - Y nifer o ymwelwyr sy'n ymweld â Sir Ddinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4,350,000 Derbyniol Gwell | Aros am ddata. Ar gael yn yr haf |

### Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

| Teitl | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o staff sydd wedi cwblhau modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith:- **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | Dim data. Newydd ar gyfer chwarter 4 2022 i 2023 | 73% Blaenoriaeth i Wella |
| Mesur: Y nifer o Grefftwyr Sir Ddinbych a gefnogwyd (DPA Contract DLL) - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 54 (ffigwr blynyddol) Ardderchog | Dim data | Dim data | Dim data | 55 (ffigwr blynyddol) Ardderchog Gwell |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae'r thema hon yn cynnwys 20 o brosiectau a gweithgareddau. Nid yw 11 wedi dechrau eto ac mae'r rhain wedi cyrraedd amrywiol gamau (o'r brîff prosiect i achos busnes); mae pump 'O fewn targed' a thri yn 'Profi rhwystrau'. Mae Prosiect Archifau ar y cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint 'Mewn Perygl'. Mae'r statws 'Mewn Perygl' ar y sail nad yw arian wedi'i sicrhau eto ac felly nid yw cronfeydd mewn lle i symud ymlaen fel y bwriadwyd gyda'r datrysiad llety a'r cynllun gweithgaredd. Yn amodol ar y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Cabinet, sydd nawr hefyd yn dymuno adolygu dewisiadau amgen yn Sir Ddinbych, bydd cais am arian i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (arian grant cyfalaf Cymru) yn cael ei gyflwyno naill ai ym mis Awst neu fis Tachwedd 2023, a dylai'r canlyniad fod yn hysbys tua pedwar mis yn ddiweddarach. Yn y cyfamser, bydd y ddau wasanaeth archif yn parhau i gydweithio a datblygu'r gwasanaeth o dan frand Archif Gogledd Ddwyrain Cymru.

Nid yw ein haddewid i 'Ddatblygu strategaeth ddiwylliannol a threftadaeth a rhaglen o ddigwyddiadau' wedi dechrau eto ac ni chytunwyd ar ffordd ymlaen i gyflawni'r addewid ar hyn o bryd.

Mae prosiectau Ffyniant Bro yn cael eu datblygu.  Nid yw unrhyw un o brosiectau Gorllewin Clwyd yn fyw eto; mae'r rhan fwyaf naill ai yn y cam brîff prosiect neu achos busnes ac adroddir ar y wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfnod nesaf.

Darparu Strategaeth y Gymraeg 2023-28 i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir a darparu gwasanaeth, creu polisi a safonau gweithredol Polisi Iaith Gymraeg yn dechrau unwaith y ceisir cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Mehefin 2023.   Mae'n bosibl y bydd y Strategaeth yn benodol yn gwarantu cael ei chynnal fel prosiect i sicrhau bod y newid diwylliant yr ydym yn dymuno ei weld yn cael ei gyflawni a'i ymgorffori'n llawn ar draws y cyngor a'i holl wasanaethau.

Mae teitl gweithgaredd i "Weithio gyda phartneriaid ar ddynodiad arfaethedig Parc Cenedlaethol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru" wedi'i newid i "Datblygu rheolaeth fewnol ac allanol Cyngor Sir Ddinbych ar y cynnig a ddaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru", i adlewyrchu statws presennol datblygiadau mewn perthynas â'r Parc Cenedlaethol newydd.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Gweithredu'r CSCA i gefnogi miliwn o siaradwyr erbyn 2050 | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Darparu Strategaeth y Gymraeg 2023-28 i hybu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Cyflawni darpariaeth gwasanaeth, creu polisi a safonau gweithredol y Polisi Iaith Gymraeg. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Darparu a chyflawni prosiect iaith a diwylliant Cymraeg ar draws y gwasanaeth i bobl ifanc ddathlu ble maent yn byw | Wedi'i wneud<br>Yr un fath | Gwnaethom gwblhau gweithgaredd i ddatblygu a darparu prosiect iaith a diwylliant Cymraeg ar draws y Gwasanaeth i bobl ifanc ddathlu ble maent yn byw yn ystod y flwyddyn gan gynnwys dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, coginio, cerddoriaeth a sesiynau celf. |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR***: *Datblygu strategaeth ddiwylliannol a'r rhaglen ddigwyddiadau* | *Heb ddechrau* | *Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024.* |
| **Prosiect:** Prosiect Archifau ar y cyd Sir Ddinbych a Sir y Fflint | Mewn Perygl<br>Yr un fath | Nid yw arian wedi'i sicrhau eto ac felly nid yw cronfeydd mewn lle i symud ymlaen fel y bwriadwyd gyda'r datrysiad llety a'r cynllun gweithgaredd. Mae cais am gyllid yn cael ei ddatblygu. |
| Datblygu cam 1 Castell Bodelwyddan fel Parc Gwledig a phorth i Sir Ddinbych | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Datblygu a darparu Cynllun i'r Dyfodol ar gyfer Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych 2023 i 2026 | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Datblygu a darparu'r Cynllun Llysgennad yn Sir Ddinbych ac ar draws Cymru mewn partneriaeth | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu Strategaeth Ddiwylliannol newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Llyfrgelloedd Sir Ddinbych | Heb ddechrau | Nid yw Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi eto. |
| Datblygu rheolaeth fewnol ac allanol Cyngor Sir Ddinbych ar gynnig gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Ceisio dynodi'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol fel Cymuned Awyr Dywyll | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Cefnogi a gweithredu'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol | Yn unol â'r targed | |
| Datblygu Strategaeth Llyfrgell newydd ar gyfer Sir Ddinbych yn adlewyrchu'r blaenoriaethau ac uchelgeisiau Cynllun Corfforaethol CSDd | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Plas Newydd, Llangollen: Ymestyn y profiad dysgwr i gynnwys gwelliannau i'r tir (Rownd 1 Ffyniant Bro De Clwyd) | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Rhaeadr y Bedol (Rownd 2 Ffyniant Bro De Clwyd) | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Tŵr Cloc Rhuthun: Adnewyddu nodweddion allanol Tŵr Cloc Rhuthun (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |
| Carchar Rhuthun/46 Stryd Clwyd, Rhuthun: Adnewyddu eiddo gan gynnwys mynediad newydd a gwella cyfleusterau cyhoeddus (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Nantclwyd y Dre, Rhuthun: Adfer adeilad rhestredig Gradd 1 (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Heb ddechrau | Yn ystod cam achos busnes |
| Cae Ddôl, Rhuthun: Uwchraddio Parth Cyhoeddus a chysylltu i'r thema treftadaeth (Rownd 2 Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd) | Heb ddechrau | Cam briff prosiect |

## Crynodeb o newyddion

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r thema hon:

Llyfr cerdded newydd The Edge of Cymru, yn archwilio Cymru wedi lansio ym Mhlas Newydd, Llangollen ym mis Ionawr. Roedd y digwyddiad yn dathlu cyhoeddi'r llyfr ac yn amlygu pwysigrwydd codi proffil awduron Cymru, yn arbennig y rhai sy'n archwilio ein tirlun, diwylliant ac iaith.

Hysbysodd y cyngor breswylwyr ac ymwelwyr â'r sir ar ôl dwy flynedd o waith adfer yn dilyn llifogydd, bydd Carchar Rhuthun yn ailagor drysau'r celloedd i ymwelwyr o 1 Ebrill 2023. Mae'r gwaith adfer yn cynnwys llawer o ychwanegiadau newydd cyffrous i ymwelwyr eu harchwilio.

Ym mis Mawrth, roedd y Cyngor wedi cynnal diwrnod agored yn Nhyr Baddondy Rhufeinig ym Mhrestatyn. Gwahoddwyd pobl i fynychu'r diwrnod agored i ddysgu am hanes y safle hynafol, i roi cynnig ar grefftau a ysbrydolwyd gan y Rhufeiniaid a dysgu mwy am rai o waith adfer gwaith maen a mwynhau ail-greu hanes Rhufeinig. Wedi'i ariannu gan Cadw a Chronfa Datblygu Cynaliadwy'r AHNE, nod y prosiect yw cynyddu nifer yr ymwelwyr a diogelu'r safle am genedlaethau i ddod.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych wedi mynychu Pwyllgor Craffu Perfformiad ym mis Mawrth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ei berfformiad mewn perthynas â 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn ceisio sylwadau'r Pwyllgor ar gynnydd a wnaed i ddatblygu llyfrgelloedd fel mannau lles a gwytnwch unigolion a chymuned.

# Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda

Mesurau: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella

Prosiectau: Mewn Perygl

Teitl y bennod hon mewn adroddiadau blaenorol oedd "Iechyd Corfforaethol: Mae'r Cyngor yn effeithlon, wedi'i reoli'n dda ac yn amgylcheddol gynaliadwy". O dan ein Cynllun Corfforaethol newydd, mae'r thema Iechyd Corfforaethol yn parhau, ond fel "Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad".

Fel yr eglurwyd yn yr adran Crynodeb o'r Sefyllfa, ers mis Tachwedd, rydym wedi cynnal trafodaethau i bennu'r set strategol gywir o fesurau a gweithgarwch i'w monitro drwy'r adroddiadau perfformiad hyn yn y dyfodol. Bydd llawer o'r mesurau a rhai o'r gweithgareddau a adroddwyd yn flaenorol o dan Iechyd Corfforaethol yn parhau, ac rydym wedi diweddaru'r cynnydd mewn perthynas â'r rhai isod. Fodd bynnag, mae yna dal rywfaint o waith i'w wneud cyn cyrraedd dangosydd terfynol sy'n cynnwys dangosyddion newydd ar gyfer prosiectau neu weithgareddau sydd heb ddechrau eto.

## Fframwaith Perfformiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn â'r Llinynnau Mesur

Mae mesur penodiadau cyfartal yn gymhleth ac yn ystyried y nodweddion a ddiogelir yr ydym eisoes â data ar eu cyfer (yn seiliedig ar yr hyn mae pobl wedi'i ddatgan). Rydym yn ystyried y nodweddion a ddiogelir, Hil, Anabledd, Rhywioldeb ac Ailbennu Rhywedd yn benodol. Yn seiliedig ar y data a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer 2021 - 2022, rydym wedi gweld cynnydd mewn penodiadau o 4% i 21%. Mae hyn yn cymharu ag 19% wrth edrych ar y rheiny a gafodd eu penodi nad oes ganddynt y nodweddion hyn. Ar ôl archwilio'r data yn fwy manwl, gwnaed mwy o benodiadau i bobl sy'n nodi eu bod yn hoyw neu'n ddeurywiol neu wedi ailbennu rhywedd na'r sawl oedd yn nodi eu bod yn heterorywiol/strêt. Roedd bobl gyda nodweddion gwarchodedig 'hil', anabledd neu grefydd yn llai tebyg o gael eu penodi na'r sawl oedd heb y nodweddion gwarchodedig hynny (y gwahaniaeth canran mewn penodiadau oedd 2% ar gyfer 'hil', 3% ar gyfer anabledd ac 11% ar gyfer crefydd).

Roedd 80.7% o'r swyddi â thâl isaf a gynigir gan y cyngor wedi eu llenwi gan ferched yn ystod 2022 i 2023 (i fyny o 79.3% ers y flwyddyn flaenorol), sy'n cael ei ystyried yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.   Roedd ein mesur ar gyfer cyfradd fesul awr i ferched yn

dangos fod merched yn cael eu talu yn fwy na dynion yn ystod 2019 i 2020 a 2020 i 2021, ond roedd y gwahaniaeth mewn tâl yn symud yn ôl i ffafrio dynion 6.7% yn 2021. Roedd cyfradd tâl cymedrig wedi dychwelyd i ffafrio merched eto yn ystod 2022 i 2023.

O fis Mawrth 2023, roedd absenoldeb salwch yn 9.8 diwrnod, yr un fath a'r cyfnod diwethaf, ac mae'n parhau'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. O fis Mawrth 2023, roedd canran y staff oedd yn gymwys ar gyfer un neu dri chyfarfod un i un ac sydd wedi cael o leiaf un neu dri chyfarfod un i un yn y 12 mis diwethaf wedi aros yn 61%, i fyny o 53% yn y cyfnod diwethaf. Mae hwn yn gyfanswm treigl. Roedd canran y gweithwyr sydd wedi cwblhau pob un o'r 9 o fodiwlau e-ddysgu erbyn diwedd y flwyddyn (ac eithrio ysgolion) wedi aros yn 49% erbyn diwedd y flwyddyn ac mae'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. O ystyried yr heriau sy'n wynebu'r cyngor, mae'r thema hon yn defnyddio trosiant gweithwyr fel dangosydd. Mae mwy o weithwyr wedi gadael y cyngor (gan gynnwys ac eithrio ysgolion) dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan godi i 12.4% (ac eithrio ysgolion) ac 11.7% (gan gynnwys ysgolion) o'r cyfanswm gweithlu yn ystod 2022 i 2023.

Nid ydym wedi derbyn unrhyw argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella gan reoleiddwyr allanol (Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru), ac ni chafwyd unrhyw adroddiadau sicrwydd isel yn y cyfnod hwn gan archwilio mewnol. Cynhaliwyd Adolygiad ar y cyd gan yr Arolygiaeth o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) yn Sir Ddinbych ym mis Chwefror 2023 oedd yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac Estyn. Derbyniwyd adroddiad drafft ac rydym yn disgwyl gallu adrodd ar ddeilliannau'r Adolygiad yn y cyfnod adrodd nesaf.

Mae un prosiect corfforaethol yn cael ei nodi fel 'wedi'i beryglu' (prosiect Gofal Plant Dewi Sant), gyda 96% o brosiectau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd gan reolwyr prosiect, gwelliant o 1% o'n hadroddiad diwethaf.

Ar hyn o bryd mae gennym gyfanswm o 20 risg ar y gofrestr, 11 sydd yn anghyson gyda'n parodrwydd i dderbyn risg (55%). Mae hyn yn cael ei ystyried yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.

Roedd ychydig o dan hanner (49.5%) o holl fesurau'r Cynllun Corfforaethol yn ymddangos fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' yn ystod Ionawr i Mawrth, sy'n cael ei ystyried yn 'Dderbyniol'.

Mae ein mesur ar amrywiant y gyllideb  (h.y. yr hyn sydd gennym o'i gymharu â'n gwariant) wedi gostwng i £1.585 miliwn. Mae arian wrth gefn y cyngor hefyd wedi gostwng i £5.531 miliwn.

Rydym wedi dechrau monitro'r gwariant sefyllfa refeniw derfynol yn ôl y pen, rydym yn ei feincnodi'n genedlaethol.   Roedd gwariant sefyllfa refeniw derfynol yn ôl y pen o'r boblogaeth yn Sir Ddinbych yn £2913.25 yn 2021 i 2022.   Rydym angen cytuno ar ein methodoleg ar gyfer penderfynu sut mae rhagoriaeth yn edrych.   Ar sail ein methodoleg diofyn, ble penderfynir ar ragoriaeth drwy gyfrif y canolrif ar draws Cymru - oedd ar gyfer 2021 i 2022 yn sefyll yn £2,669.31 - byddai ein perfformiad yn cael ei ystyried yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella', wedi'i restru'r ail uchaf o'i gymharu â holl awdurdodau lleol yng Nghymru.   Fodd bynnag, mae hwn yn fesur crai sengl fyddai'n gallu gwarantu cael ei archwilio ochr yn ochr â chyfraddau treth y cyngor er enghraifft.   Fodd bynnag, mae'n cynnig rhan o drafodaeth ar gyfer  gwerth am arian, sy'n un o'r addewidion o fewn y thema hon; addewid sydd angen ei gwmpasu ymhellach.

Erbyn diwedd Mawrth, roedd 35% o wariant y Cyngor gyda chyflenwyr lleol a 66% o gontractau (dros £25,000 ac yn llai na £1,000) yn ystod y cyfnod yn cynnwys manteision cymunedol. Dyfarnwyd dau weithgaredd caffael cydweithredol yn ystod y cyfnod hwn a methwyd un cyfle caffael cydweithredol. Roedd 15 o gaffaeliadau cydweithredol posibl ar y gorwel a bydd y rhain yn cael eu harchwilio a'u datblygu dros y misoedd i ddod.

Mae canran y straeon newyddion negyddol am y Cyngor (fel cyfran o bob stori newyddion am y cyngor) wedi cynyddu o 12% yn y cyfnod blaenorol i 14% rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023.  Mae hyn yn cynrychioli 27 o straeon negyddol allan o gyfanswm o 190 ac mae'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'.  Mae canran y cwynion allanol a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol dros y chwarter diwethaf wedi gostwng o 53% i 42%.  Mae hyn yn cynrychioli 24 o 56 o gwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol ac yn cael ei ystyried yn 'Dda'.

Mae sawl un o'n cwestiynau arolwg rhanddeiliaid wedi gweld rhywfaint o welliant eleni ond mae pob un o'r rhai sy'n ymwneud â'r thema hon yn parhau'n 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella'. Mae pob cwestiwn yn adlewyrchu'r addewidion o fewn y Cynllun Corfforaethol newydd ac yn faes i'r cyngor ganolbwyntio arno. Bydd y cwestiynau yn cael eu gofyn bob blwyddyn am weddill y Cynllun Corfforaethol hwn ac rydym yn gobeithio gweld gwelliannau yng nghanlyniadau'r arolwg wrth i'r Cynllun gael ei gyflawni.

Ar gyfer mesurau a gweithgaredd pellach i gefnogi caffael a buddion cymunedol, gweler y thema Ffyniannus.

## Mesurau Blynyddol neu Ddwyflynyddol

### Data 2019 i 2022

| **Teitl** | **2019 i 2020** | **2020 i 2021** | **2021 i 2022** |
|---|---|---|---|
| Canran y penodai newydd o geisiadau lle datgelwyd eu bod o grŵp hil neu grefyddol lleiafrifol, eu bod ag anabledd, yn hoyw neu ddeurywiol, neu eu bod wedi ailbennu rhywedd - **Cyfrif yn Unig** | 15% | 4% | 21% |

**Data 2021 i 2023**

| Teitl | 2021 i 2022 | 2022 i 2023 |
|---|---|---|
| Canran y gwahaniaeth yng nghymedr cyfradd tâl bob awr ar gyfer merched - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 6.7% Derbyniol | -13.4% Ardderchog Gwell |
| Canran y cyflogau isaf a delir (chwarter isaf) sy'n ferched - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 79.3% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 80.7% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth |
| Canran presenoldeb aelodau etholedig (cyfredol ac a ddisgwylir), hyd yn hyn yn y flwyddyn - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 89% | 84% Da Yn waeth |
| Y ganran o weithwyr sy'n gadael Sir Ddinbych fel canran o'r cyfanswm gweithlu (ac eithrio ysgolion) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10.6% Da Yn waeth | 12.4% Derbyniol Yn waeth |
| Y ganran o weithwyr sy'n gadael Sir Ddinbych fel canran o'r cyfanswm gweithlu (ac eithrio ysgolion) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10.2% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 11.7% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn dryloyw, wedi'i redeg yn dda ac yn perfformio'n dda - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 40.69% Blaenoriaeth i Wella |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 62% Da | 41.26% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod perthynas weithio dda rhwng arweinwyr gwleidyddol a'r uwch dîm rheoli - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 63% Da | 29% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn rheoli ei berfformiad yn dda - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 28% Blaenoriaeth i Wella | 42.53% Blaenoriaeth i Wella Gwell |

| | | |
|---|---|---|
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn rheoli ei beryglon a'i heriau yn dda - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 30%<br>Blaenoriaeth i Wella | 41.47%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn rheoli ei gyllid yn dda - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 26%<br>Blaenoriaeth i Wella | 37.41%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Y ganran o fudd-ddeiliaid sy'n cytuno fod gan y Cyngor gynlluniau hirdymor effeithiol yn eu lle - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 31%<br>Blaenoriaeth i Wella | 37.59%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn trin ei weithlu yn dda - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 35%<br>Blaenoriaeth i Wella | 48.27%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Y ganran o fudd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau ac adnoddau - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 20%<br>Blaenoriaeth i Wella | 27.95%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Y ganran o fudd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn prynu ei nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd effeithlon a theg - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 25%<br>Blaenoriaeth i Wella | 28.47%<br>Blaenoriaeth i Wella<br>Gwell |
| Y ganran o fudd-ddeiliaid sy'n cytuno fod y Cyngor yn gweithredu ar bryderon preswylwyr - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 38.62%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno fod y cyngor yn trin pobl yn deg - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 42.39%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Y ganran o rhanddeiliaid sy'n cytuno bod Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau'r Cyngor yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2022 i 2023 | 37.3%<br>Blaenoriaeth i Wella |
| Gwariant sefyllfa refeniw derfynol yn ôl y pen o'r boblogaeth (£) - **cyfrif yn unig** | 2,913.25<br>Trothwyon ar y gorwel | Aros am ddata. Ar gael Hydref 2023 |

## Mesur Chwarterol neu Ddeuflynyddol

| Teitl | Chwarter 4 2021 - 2022 | Chwarter 1 2022 - 2023 | Chwarter 2 2022 - 2023 | Chwarter 3 2022 - 2023 | Chwarter 4 2022 - 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y Mesurau Cynllun Corfforaethol sy'n dangos 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 47% Derbyniol Yn waeth | 51% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 51% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath | Dim data: nid yw'n berthnasol | 49.5% Derbyniol Gwell |
| Nifer y prosiectau ar y gofrestr prosiect sydd 'dan fygythiad' - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 1 Da Gwell | 1 Da Yr un fath | 2 Derbyniol Yn waeth | 1 Da Gwell | 1 Da Yr un fath |
| Canran y prosiectau lle cafodd hyder o ran cyflawni ei ddiweddaru yn y tri mis diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 100% Ardderchog Gwell | 95% Da Yn waeth | 100% Ardderchog Gwell | 95% Da Yn waeth | 96% Da Wedi gwella |
| Canran y risgiau corfforaethol sy'n anghyson â datganiad parodrwydd i dderbyn risg y Cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 64% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | Dim data: nid yw'n berthnasol | 55% Blaenoriaeth i Wella Gwell | Dim data: nid yw'n berthnasol | 55% Blaenoriaeth i Wella Yr un fath |
| Nifer cronnus o'r adroddiadau negyddol gan reoleiddwyr allanol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0 | 0 | 0 Ardderchog Yr un fath | 0 Ardderchog Yr un fath |
| Nifer cronnus o adroddiadau sicrwydd isel Archwilio Mewnol, y flwyddyn ariannol hyd yn hyn - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 4 Derbyniol Yn waeth | 0 | 0 | 0 Ardderchog Yr un fath | 0 Ardderchog Yr un fath |
| Amrywiant Cyllideb Corfforaethol a Gwasanaeth (£k) - **Cyfrif yn unig** | -2,399 | 1,109 | 2,661 | 2,189 | 1,585 |
| Arian wrth gefn y Cyngor (£) - **Cyfrif yn unig** | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 7,135 | 5,531 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Straeon newyddion negyddol fel canran o'r holl straeon newyddion am y cyngor - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 9% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 10% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 11% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 12% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 14% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth |
| Canran y cwynion allanol wedi'u cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol dros y chwarter diwethaf - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 60% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 46% Da Gwell | 67% Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 53% Derbyniol Gwell | 42% Da Gwell |
| Y ganran o Aelodau sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cod Ymddygiad - **Meincnodi Lleol** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Cyfartaledd treigl nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth â llawn amser oherwydd absenoldeb salwch - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 9.57 Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 10.18 Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 10 Blaenoriaeth i Wella Yn waeth | 9.8 Blaenoriaeth i Wella Gwell | 9.8 Blaenoriaeth i Wella Yr un fath |
| Y ganran o staff sy'n gymwys ar gyfer un neu dri un i un ac sydd wedi cael o leiaf un neu dri un i un yn y 12 mis diwethaf (gan unigolyn) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 43% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 45% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 52% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 53% Blaenoriaeth i Wella Gwell | 61% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Y ganran o staff sydd gennym wybodaeth monitro cydraddoldeb ar eu cyfer - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 52% Da Yn waeth | 51.4% Da Yn waeth | 76% Ardderchog Gwell | 72% Ardderchog Yn waeth | 71.5% Ardderchog Yn waeth |
| Y nifer o swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y chwarter - **cyfrif yn unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y ganran o weithwyr sydd wedi cwblhau'r 9 modiwl e-ddysgu gorfodol erbyn diwedd y flwyddyn (ac eithrio ysgolion) - **wedi'i feincnodi'n lleol)** | Dim data | Dim data | Dim data | Dim data | 49% Blaenoriaeth i Wella Gwell |
| Y nifer o lwybrau gyrfa - **Cyfrif yn Unig** | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Dim data. Newydd ar gyfer 2023 i 2024 |
| Y nifer o union gaffaeliadau cydweithio - **cyfrif yn unig** | 1 | 5 | 2 | 1 | 2 |
| Y nifer o gaffaeliadau cydweithio a fethwyd - **cyfrif yn unig** | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |

## Fframwaith Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect

Mae'r thema hon yn cynnwys sawl gweithgaredd a awgrymwyd sydd angen eu cwmpasu. Mae rhai eisoes ar y gweill (fel cyflawni'r cynlluniau gweithredu a nodwyd gan staff yn y pump grŵp tasg a gorffen a arweinir gan staff a grewyd gan y Prif Weithredwr). Mae dau weithgaredd 'O fewn targed', saith yn 'Profi rhwystrau' a'r 13 sy'n weddill i fod i ddechrau rhwng 2023 a 2024 (pedwar ohonynt wedi eu hawgrym ac angen eu cwmpasu). Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer y thema hon o dan drafodaeth ac rydym yn gobeithio adrodd ar ffordd ymlaen a gytunwyd yn ein hadroddiad nesaf.

**Prosiectau neu Weithgareddau**

| Teitl | Statws | Eithriadau |
|---|---|---|
| Paratoi ar gyfer Adolygu Cyfoedion ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR**: Darparu cynlluniau gweithredu a nodwyd gan y pump grŵp tasg a gorffen o dan arweiniad staff* | Heb ddechrau | *Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gwmpasu* |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR**: Datblygu a lansio fframwaith gwasanaeth cwsmer newydd (wedi'i gysylltu â Strategaeth a Pholisi Iaith Gymraeg)* | Heb ddechrau | *Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gwmpasu* |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR**: Caffael CRM corfforaethol newydd (amserlen 2025)* | Heb ddechrau | *Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gwmpasu* |
| Gweithredu'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Datblygu strategaeth cydgynhyrchu (ar draws CSDd) | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Diweddaru'r strategaeth gaffael (i fod yn brosiect newydd: Gweithredu'r strategaeth gaffael newydd i gyflawni datgarboneiddio ac egwyddorion Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Datblygu a sicrhau Grŵp Rheoli Ased yn mabwysiadu Strategaeth Rheoli Asedau newydd | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Datblygu ac yn cyflawni cynlluniau portffolio i bennu siâp, maint a defnydd asedau yn y dyfodol ar gyfer pob un o bortffolios rheoli asedau'r cyngor. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithlu Corfforaethol 2022 i 2027 | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| ***GWEITHGAREDD A AWGRYMIR**: Sicrhau fod gwerth am arian yn cael ei sefydlu o fewn ein diwylliant sefydliadol, a bod penderfyniadau'n cael eu cydbwyso gydag ystyriaeth o ansawdd gwasanaeth a gwerth cymdeithasol.* | *Heb ddechrau* | *Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gwmpasu* |

| | | |
|---|---|---|
| Sefydlu'r Grŵp Cyswllt Moesegol | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Diweddaru'r Cod Ymddygiad Aelodau i gynnwys amserlen ble disgwylir i Aelodau fod wedi cwblhau hyfforddiant Cod Ymddygiad | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Datblygu fframwaith i arwain cynghorwyr i ymdrin ag aflonyddwch, camdriniaeth a bygythiadau | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Gweithredu gofynion newydd Deddf Etholiadau'r DU 2022 a diwygio etholiadol arall | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn addas i'r diben yn dilyn newidiadau a wnaed yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Codi ymwybyddiaeth am faterion iechyd meddwl ar draws y cyngor drwy ddarparu ac ymgorffori'r cynllun gweithredu Amser i Newid. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Hybu a galluogi llwybrau gyrfa, ble bo'n bosibl, i gefnogi datblygu'r gweithlu a chynnydd | Heb ddechrau | Gwaith i ddechrau yn ystod 2023 i 2024. |
| Ymgorffori'r polisi gweithio hyblyg newydd a chefnogi unrhyw anghenion dysgu a datblygu ohono | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, gan gynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb, i gefnogi dadansoddiadau mwy manwl mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol. | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |
| Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Gweithlu Corfforaethol | Yn unol â'r targed<br>Yr un fath | |
| Cyflawni'r cynllun gweithredu grŵp Gweithredol Recriwtio a Chadw Gofal Cymdeithasol | Profi Rhwystrau<br>Yr un fath | |

## Hunanasesiad Meysydd Llywodraethu

Mae ein saith maes llywodraethu allweddol yn ein hunan-asesiad wedi'u hamlinellu isod ac yn ceisio rhoi darlun o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio, sut rydym yn gwybod hynny (gan gyfeirio at dystiolaeth lle bo modd), a sut gallwn wella. Mae ein crynodeb newyddion wedi'i gynnwys yn ein hadran lywodraethu.

## Cynllunio Corfforaethol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae cynllunio corfforaethol yn golygu sut mae'r cyngor yn gosod ac yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a strategol.

### Ymgorffori ein Cynllun Corfforaethol newydd, 2022 i 2027

Ers cymeradwyo ein Cynllun Corfforaethol newydd, mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad wedi bod yn gweithio i gysoni swyddogaethau adrodd y cyngor â'r Cynllun newydd, sy'n cynnwys ein trefniadau llywodraethu a Fframwaith Rheoli Perfformiad diwygiedig a fydd yn cefnogi'r naw thema. Bydd ein cyfarfod Rhaglen cyntaf ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd yn cael ei gynnal gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet ar 17 Mawrth i gytuno ar ein 'dogfen glasbrint' ar gyfer cyflawni'r Cynllun. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf i gyflwyno perfformiad yn erbyn y fframwaith newydd hwn. Bydd sesiwn pellach a drefnwyd gyda'n Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet ar 25 Ebrill yn cytuno ar drefniadau llywodraethu ar gyfer y naw thema yn y Cynllun. Rydym hefyd wedi sicrhau bod holl Gynlluniau Gwasanaeth yn alinio gyda a chynnwys y Cynllun Corfforaethol i sicrhau eglurder adrodd.

### Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Yn dilyn y casgliad ym mis Ionawr o'r ymgynghoriad ffurfiol ar y dewisiadau arfaethedig ar gyfer ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth newydd, dosbarthwyd cytundeb ynglŷn â'r strwythur terfynol ym mis Chwefror, a gweithredu'n dod i rym o 1 Ebrill 2023. Yn fyr, mae grwpiau gwasanaeth newydd wedi eu creu o dan dau Wasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn cynnwys 'Pobl' (sy'n cynnwys y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Cyfathrebu a Marchnata a Gwasanaeth i Gwsmeriaid a 'Pherfformiad, Digidol ac Asedau' (sy'n cynnwys y rhan fwyaf o agweddau'r cyn Wasanaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, ond gan ychwanegu Gwasanaethau Eiddo). Bydd Gwasanaeth Tai a Chymunedau newydd hefyd yn cynnwys Datblygu

Cymunedol, Archifau,a Datblygu a Chynnal a Chadw Tai. Rydym wedi newid ein henw yn ddiweddar o Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i “Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd”. Yn olaf, bydd Archwilio Mewnol yn symud i’r Gwasanaeth Cyllid ac Archwilio newydd. Mae gennym bedair swydd wag pennaeth gwasanaeth o fewn y strwythur ar hyn o bryd, yn cael eu goruchwylio gan drefniadau dros dro gyda rheolwyr yn cyflawni dyletswyddau uwch. Bydd y broses recriwtio ar gyfer y swyddi hyn yn digwydd mewn dau gam, gan ddechrau gyda’r penaethiaid Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd a Gwasanaethau Ffyrdd ac Amgylcheddol yn cael eu hysbysebu yn Ebrill; i ddilyn gyda’r swyddi Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol gobeithio ym mis Mai. I gael mwy o wybodaeth am y strwythur newydd, ewch i’n gwefan.

### Cyfarfodydd Cynghorwyr

Agorodd arolwg o gynghorwyr ym mis Rhagfyr i benderfynu a yw cyfarfodydd a gynhelir yn ystod y dydd yn niweidiol i aelodau sy'n gweithio lle mae cyflogwyr yn amharod i ryddhau staff i fynychu cyfarfodydd. Cafodd y canlyniadau eu rhannu gyda’r Cyngor yn Ionawr. Derbyniwyd 34 o ymatebion (72% o’r aelodaeth) a daepthwyd i’r casgliad bod y mwyafrif o aelodau yn ffafrio cyfarfodydd bore, ddim eisiau gweld amseroedd cyfarfodydd yn cylchdroi ac mai cyfarfodydd min nos fyddai’r anoddaf i’w mynychu. Roedd aelodau yn cymeradwyo a chadarnhau trefniadau presennol ar gyfer amser cyfarfodydd, pwyllgorau a chyfarfodydd eraill aelodau’r Cyngor.

### Cytuno a gweithredu dull cyngor cyfan ar gyfer Ffyrdd Newydd o Weithio

Dosbarthwyd nodyn briffio ym mis Tachwedd (yn ein hadroddiad blaenorol) a oedd yn amlinellu’r sefyllfa ganlynol o ran staff a gweithio yn y swyddfa / gartref. Mae’r sefyllfa yn parhau yr un fath. Fodd bynnag, yn dilyn ailstrwythuro’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, mae cyfrifoldeb dros y prosiect Ffyrdd Newydd o Weithio bellach wedi symud i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes. Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn edrych ar ystad swyddfeydd y cyngor e.e. beth mae ei angen a lle.

### Ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Un gofyniad sy’n weddill o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yw bod trefniadau yn eu lle ar gyfer ‘Asesiad Panel’ cyfoedion o’i swyddogaethau, i’w gyflawni unwaith o fewn y tymor etholiadol. Nid yw’r sefyllfa wedi newid ers ein hadroddiad diwethaf, rydym yn aros i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddarparu manylion am eu cynnig Asesu Cyfoedion cenedlaethol, gan gynnwys eu costau. Roeddem wedi rhagweld y

manylion hyn erbyn y gwanwyn 2023, gyda'r asesiadau panel cyntaf o awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn yr hydref 2023 ar y cynharaf.   Fodd bynnag, mae yna oedi parhaus a byddwn yn ceisio eglurhad.

### Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Roedd deuddeg prosiect ar gyfer Blwyddyn 1 o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr, ond rydym yn parhau i aros am ganiatâd i gyhoeddi cytundebau grant a ffurflenni hawlio i brosiectau ar gyfer y cyllid. Cafodd y ffenestr ar gyfer ceisiadau Blwyddyn 2 a 3 ei hagor rhwng Ionawr 31 a Chwefror 24 ac yn Sir Ddinbych gwnaethom dderbyn 110 o geisiadau: 70 ar gyfer prosiectau rhanbarthol, gyda'r 40 oedd yn weddill yn darparu'n uniongyrchol yn Sir Ddinbych yn unig.   Ar ôl derbyn a gwerthuso'r ceisiadau, gan gynnwys ymgynghori gyda Phartneriaeth y Gronfa Ffyniant Gyffredin ehangach yn Sir Ddinbych, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Chadeiryddion Grwpiau Ardal yr Aelodau, cafodd 60 o brosiectau eu trafod mewn cyfarfod Partneriaeth ar 21 Mawrth, gyda 29 ar y rhestr fer a 3 wrth gefn.

Rydym bellach hefyd wedi derbyn drafft cyntaf y cytundebau rhanbarthol sy'n amlinellu trefniadau a'r camau nesaf ar ôl cymeradwyo ceisiadau yn ystod Cam 1.  Mae trafodaeth hefyd wedi'i chynnal gyda'r tîm rhanbarthol am sut yr ydym yn darparu adborth cyfunol ar geisiadau rhanbarthol.  Yn y cyfamser, mae Cyllid wedi casglu tystiolaeth ar gyfer ein hawliad cyntaf o ffioedd Gweinyddu, a hawlir hyd at Ionawr 2023.

Ym mis Chwefror, cytunodd y Cabinet i gomisiynu Cadwyn Clwyd a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i gyflawni Cronfeydd Allweddol yn ardal Cefnogi Busnes a Chynyddu Gallu Cymunedol. Mae Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth yn gweithio gyda chydweithwyr Cyfreithiol, Cyllid a Rhanbarthol i gadarnhau pwy fydd yr Arweinydd Prosiect ar gyfer y Cronfeydd Allweddol hyn.   Rydym hefyd yn y broses o geisio gwybodaeth ychwanegol gan y Tîm Rhanbarthol am y gofynion angenrheidiol i wneud cais am daliadau pellach ar gyfer prosiectau.

## Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae cynllunio ariannol yn ymwneud â rheoli ein hincwm a gwariant.

## Adroddiadau Diweddariadau Cyllid

Yn Ionawr, roedd y Cabinet wedi ystyried adroddiad ariannol, yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni. Roedd cynlluniau i wario grant cyfalaf i weithredu cynllun prydlesu digartrefedd wedi eu cymeradwyo.  Roedd y Cabinet wedi derbyn adroddiad cyllid pellach yng nghyfarfod mis Chwefror ac roedd aelodau yn cymeradwyo'r ffurflen gomisiynu ar gyfer tendro i'r holl gategoriau gwasanaeth yswiriant (heblaw morol a therfysgaeth) ar gyfer yr awdurdod. Hefyd, cymeradwywyd diddymu Cyfraddau Busnes na ellir eu hadennill.  Roedd yr adroddiad cyllid diweddaraf ar gyfer y cyfnod wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth. Rhoddwyd cymeradwyaeth i'r gofyniad arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Grant Ffyniant Bro Gorllewin Clwyd hefyd, ynghyd â phrosiect 'Pedair Priffordd Fawr' fel rhan o raglen Grant Ffyniant Bro De Clwyd.

Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022 - 2023 yw £233.696 miliwn (i fyny o £216.818 miliwn yn 2021 - 2022). Rhagwelir y bydd gorwariant o £1.585 miliwn ar sefyllfa cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol.  Yng nghyllideb 2022 i 2023 roedd gofyn dod o hyd i arbedion gwasanaeth ac arbedion effeithlonrwydd o £0.754m a chymerir bod y rhain wedi eu cyflawni. Ar ddiwedd mis Chwefror, roedd cyfanswm benthyciadau'r Cyngor yn £273.035 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.08%.  Roedd balansau buddsoddi yn £36.2 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 3.44%.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio gostyngiad yn y balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £578 mil, o'i gymharu â £4 mil ar yr adeg y cymeradwywyd y gyllideb. Mae'r lleihad yn ymwneud â gostyngiad yn yr incwm rhenti a amcangyfrifwyd. Felly rhagwelir y bydd balansau'r CRT yn £1.479 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Gyllideb Gyfalaf CRT o £23 miliwn yn cael ei rhannu'n bennaf rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£12 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£11 miliwn).

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi crynodeb o Gynllun Cyfalaf y cyngor. Roedd Cynllun Cyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2022 i 2023 yn £51.1 miliwn gyda'r gwariant hyd yma'n £30.3 miliwn. Cynyddwyd cronfa wrth gefn y Cynllun Cyfalaf o £1.676 miliwn i £2.176 miliwn (i fyny o'r £0.500 miliwn y cytunwyd arno fis Chwefror 2022) yn sgil cario ymlaen yr elfen heb ei neilltuo'r grant cyfalaf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru fis Mawrth. Ar ôl gwneud dyraniadau i'r Prosiect Gwastraff a'r Cynllun Ffyniant Bro, bydd y gronfa wrth gefn o £764,000 yn helpu i liniaru risgiau i'r rhaglen gyffredinol yn sgil effaith chwyddiant ar gostau cyfalaf.

Mae sefyllfa’r gyllideb ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn faes sy’n peri pryder, a rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gorwariant o £3.437miliwn (£2.999 miliwn yn flaenorol). Mae’r rhan fwyaf o’r pwysau yn ymwneud â lleoliadau plant, sydd naill ai wedi dechrau yn y flwyddyn ariannol hon neu y rhagwelir y byddant yn para’n hirach na’r disgwyl. Mae gorwariant y gwasanaeth Addysg (£182,000) yn ymwneud â phwysau cyllideb Tu Allan i’r Sir o £704,000 oherwydd gostyngiad yn nifer y disgyblion o Gynghorau eraill sy’n mynychu cyfleusterau’r cyngor, sy’n cael ei wrthbwyso gan elwa i’r eithaf ar grantiau ac arbedion effeithlonrwydd bychan ar draws y gwasanaeth. Mae cyllideb Gwasanaeth Cefnogaeth Gymunedol yn parhau i fod yn faes risg uchel, gyda'r sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yn £2.318 miliwn (£2.369miliwn yn flaenorol) oherwydd pwysau cyffredinol o £4.8 miliwn o leoliadau cost uchel a'r gwasanaeth digartrefedd, wedi’i rwydo drwy ddefnyddio cronfa arian parod wrth gefn o £2.4 miliwn yn llawn.

### zDatganiad Cyfrifon

Mae dyletswydd statudol ar y cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy’n cydymffurfio â’r safonau cyfrifo a gymeradwyir. Ym mis Mawrth, cafodd y Llywodraeth a’r Pwyllgor Archwilio eu diweddaru ar gynnydd Datganiad Cyfrifon 2021 i 2022. Cafodd mater technegol yn effeithio ar holl awdurdodau lleol Cymru ei ddatrys ym mis Rhagfyr, fodd bynnag, mae dau fater mwy penodol yn ymwneud â gwerthoedd ased tai Cyngor Sir Ddinbych wedi arwain at oedi pellach i waith gael ei gwblhau er mwyn i Archwilio Cymru gymeradwyo’r cyfrifon.   Gan ei bod yn bwysig mynd i’r afael â’r ôl-groniad gyda’r broses cau i lawr ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2022 i 2023, mae set terfynol o gyfrifon wedi’i archwilio ar gyfer 2021 i 2022 yn annhebygol o gael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth tan fis Medi 2023.

### Adroddiad Blynyddol Rheoli’r Trysorlys

Ym mis Ionawr, roedd y Llywodraeth a’r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn diweddariad ar weithgaredd Rheoli Trysorlys y cyngor yn ystod 2022 i 2023.   Hefyd, roedd y Pwyllgor wedi adolygu Datganiad Strategaeth Rheoli’r Trysorlys ar gyfer 2023 i 2024 sy’n dangos sut y byddai’r cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a benthyciadau, gan gynnwys Dangosyddion Darbodus sy’n gosod terfynau ar weithgaredd Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mewn cyfarfod ym mis Chwefror, roedd aelodau’r Cyngor wedi cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli’r Trysorlys ar gyfer 2023 i 2024 a Dangosyddion Darbodus ar gyfer y blynyddoedd ariannol rhwng 2023 a 2026. Mae’n ofynnol i’r cyngor fuddsoddi arian y

trysorlys yn ddarbodus, gan daro balans priodol rhwng risg ac adenillion ac mae'r TMSS yn amlinellu dull y cyngor yn y cyswllt hwn.

### Y Diweddaraf am Broses y Gyllideb

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am broses y gyllideb gan y Pennaeth Cyllid. Cafodd yr Aelodau eu sicrhau bod y broses wedi cynnwys ymgynghoriad helaeth, gan gynnwys Briffio'r Cyngor a gynhaliwyd yn fuan ym mis Ionawr, a oedd yn cefnogi cynigion y gyllideb. Roedd y gyllideb ar gyfer 2023 i 2024 hefyd wedi'i thrafod a'i chymeradwyo gan y Cabinet. Roedd cynigion terfynol ar gyfer cyllideb 2023 i 2024 wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar ddiwedd Ionawr.

Roedd adroddiad y gyllideb yn gosod goblygiadau'r Setliad Llywodraeth Leol drafft ar gyfer 2023 i 2024, oedd wedi arwain at setliad cadarnhaol o 8.2% (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 7.9%). Roedd y setliad yn cynnwys pob cynnydd mewn cyflogau i athrawon a swyddi nad ydynt yn rhai addysgu a chyfrifoldeb i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol i staff gofal cymdeithasol.  Gan fod y setliad yn creu £14.231miliwn, a phwysau o £25.116miliwn wedi'i gyfrif, cafodd bwlch cyllid o £10.885 miliwn ei nodi. Cafodd cynigion i gydbwyso'r gyllideb eu hamlinellu yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan gynnwys y cynnydd a argymhellwyd yn Nhreth y Cyngor o 3.8%, oedd ym mhen isaf y cynnydd dangosol ar draws Cymru.

Yn sgil dyddiad hwyr iawn ar gyfer y Setliad Terfynol, argymhellwyd bod y Cabinet a'r Cyngor yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Cyllid i addasu'r defnydd o arian wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb gan hyd at £500,000. Roedd y setliad drafft yn cynnwys cynnydd bychan o 3% yng nghodiadau cyfartalog dangosol setliad 2024/25. Er y caiff y cynnydd hwn ei groesawu, mae'n dangos y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd dros y blynyddoedd nesaf.

Fel rhan o gynigion y gyllideb ar gyfer 2023 i 2024, cytunodd aelodau'r Cyngor ym mis Ionawr i fabwysiadu Cynllun Gostwng Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor Cymru Gyfan wedi'u Diwygio (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) 2023. Mae'r cynllun a ddiffiniwyd yn genedlaethol yn anelu i ddarparu lefelau cyson o gefnogaeth i bobl ddiamddiffyn. Roedd Aelodau hefyd yn cymeradwyo elfennau dewisol y cynllun a fanylwyd yn yr adroddiad.

Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo datrysiadau pellach yn ymwneud â gosod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2023 i 2024 i sicrhau dilysrwydd cyfreithiol y broses. Mae manylion y swm wedi'i gyfrif a argymhellwyd i'w weld yn yr atodiad gyda'r adroddiad. Mae'r rhain yn unol â gofynion y rheoliadau a chymeradwywyd gan y Cyngor llawn.

### Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

### Argymhellion y Bwrdd Cyllideb

Wedi'r Grŵp Buddsoddiad Strategol ddod i ben mae proses cymeradwyo cyfalaf newydd wedi cael ei ddatblygu. Yn y cyfamser mae'r Bwrdd Cyllideb - Cyfalaf wedi cwrdd i ystyried y cynigion sydd wedi cael eu paratoi gan bob gwasanaeth. Ym mis Chwefror roedd y Cabinet wedi cefnogi prosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2023 i 2024 yn unol ag argymhellion y Bwrdd Cyllideb. Cafodd yr Aelodau ei cynghori bod cyfanswm y cyllid ar gael ar gyfer dyraniadau bloc 2023 i 2024 ar gyfer rhaglenni gwaith parhaus yn £13,368,000. Roedd y rhestr o brosiectau yn cynnwys gwaith Priffyrdd a fyddai angen £4miliwn o fenthyca darbodus i gynnal y lefel gwariant. Nodwyd y byddai cynnydd mewn costau yn anodd i'w gefnogi oherwydd y gostyngiad yng Nghyllideb Cyfalaf Llywodraeth Cymru ac o ganlyniad, byddai'r Cyngor angen troi i gyllid drwy gronfeydd cyfalaf ar gyfer y meysydd hynny a ystyrir yn flaenoriaethau. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, roedd y Cyngor wedi cymeradwyo argymhellion y Bwrdd Cyllideb a'r Cynllun Cyfalaf ar gyfer blynyddoedd ariannol rhwng 2023 a 2026.

## Rheoli Perfformiad

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae'r adran hon yn edrych ar ein gwaith rheoli perfformiad, sef y strwythurau a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn darparu'r hyn a ddwedom y byddem yn ei ddarparu, gan annog cyfranogiad a herio gan bob rhan o'r Cyngor, ein haelodau etholedig a'n preswylwyr.

### Gweithredu proses flynyddol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar berfformiad y Cyngor

Lansiwyd ein Harolwg Rhanddeiliaid blynyddol ar 7 Tachwedd, a bydd yn rhedeg tan 19 Mawrth. Mae'n cael ei hyrwyddo drwy ein Llyfrgelloedd a'n derbynfeydd, gyda chopïau papur ar gael yn y lleoliadau hynny yn ogystal â thrwy ymgyrchoedd y cyfryngau

cymdeithasol. Gwnaethom dderbyn 630 o ymatebion, sy'n gynnydd ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r canlyniadau wedi eu cynnwys o fewn y data yn yr adroddiad hwn, sy'n cynnwys wrth gwrs am y tro cyntaf, cwestiynau newydd o amgylch themâu ein Cynllun Corfforaethol newydd. Mae cwestiynau presennol a ofynnwyd y tro diwethaf o amgylch ein saith maes llywodraethu hefyd wedi eu diweddaru ac wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad hwn. Byddwn yn cynnal cyfarfod gwersi a ddysgwyd yn y misoedd nesaf cyn lansio'r arolwg eto ar gyfer 2023 i 2024.

### Mynd i'r afael â chapasiti staff yn y Tîm Archwilio Mewnol

Roedd dau Archwilydd Llwybrau Gyrfa wedi dechrau yn eu rolau yn ystod y cyfnod hwn a bydd recriwtio ar gyfer y swydd wag Prif Archwilydd, a hysbysebir am y trydydd tro, yn dechrau yn Ebrill 2023.

### Hunanasesiad o Berfformiad

Yn ystod y cyfnod olaf hwn, ac yn parhau â'n proses barhaus ar gyfer Hunanasesu perfformiad yn erbyn ein swyddogaethau, lluniodd y cyngor ei drydydd adroddiad diweddaru perfformiad yn ystod y flwyddyn ar gyfer mis Medi i fis Rhagfyr. Cafodd hwn ei ddosbarthu i'r Uwch dîm Arweinyddiaeth, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu er gwybodaeth ac mae nawr ar gael i'w weld ar dudalen perfformiad ein gwefan. Mae'r Adroddiad Diweddaru hwn ar gyfer mis Ionawr i fis Mawrth, y pedwerydd a'r adroddiad terfynol yn y set, o'i gyfuno â'r Crynodeb Gweithredol, yn ffurfio ein Hunanasesiad ar gyfer 2022 i 2023.

### Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Fframwaith Rheoli Perfformiad

Fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud gan y Tîm Cynllunio a Pherfformiad Strategol i ddatblygu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd. Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol ac arweinwyr Cabinet a swyddogion ar bob lefel o'r cyngor i gyflwyno set cynhwysfawr o fesurau a chamau mewn ymateb i'n themâu ac addewidion ein Cynllun Corfforaethol, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn am y tro cyntaf. Rydym wedi ceisio herio gwasanaethau o amgylch eu huchelgais ar gyfer perfformiad a chynnwys mesurau cenedlaethol, ble bo'n briodol i ganiatau ar gyfer meincnodi da a llunio cymariaethau. Mae Cynlluniau Gwasanaeth hefyd wedi eu halinio i'r fframwaith newydd i ganiatau ar gyfer eglurder adrodd, y cyfan nawr yn cael ei gynnwys yn ein System Rheoli Perfformiad, Verto. Bydd yna agweddau sy'n parhau angen eu datblygu a rhai bylchau i'w llenwi, ond mae'r sylfaen bellach yn ei le i'w symud ymlaen drwy ein hadroddiadau arferol i

reolwyr a phwyllgorau.   Byddai'n amserol nawr bod y fframwaith hwn ac yn fuan, trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027 yn eu lle i'r Tîm Cynllunio a Rheoli Strategol ddiweddaru ei Ganllawiau Rheoli Perfformiad. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yn yr haf.

## Datblygiadau eraill yn y cyfnod diwethaf

## HerioPerfformiad Gwasanaeth

Yn dilyn cytundeb yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Ionawr a Briffio'r Cabinet ym mis Chwefror, roedd trefniadau ar waith ar gyfer ein rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaeth mewnol i ddechrau o fis Mai.  Mae'r heriau yn agwedd bwysig o drefniadau Rheoli Perfformiad y cyngor, gan ganiatau i uwch reolwyr, y Cabinet, aelodau craffu a'n rheoleiddwyr gynnal archwiliad dwys o berfformiad maes gwasanaeth penodol a thrafod a cheisio atebion i faterion neu beryglon allweddol.   Bydd y Gwasanaeth yn paratoi dadansoddiad SWOT byr (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) a fydd yn sail i'r drafodaeth, ochr yn ochr â data perfformiad eu Cynllun Busnes Gwasanaeth a Chofrestr Risg Gwasanaeth.

## Adroddiad Perfformiad:   Cefndy

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, roedd Craffu Perfformiad wedi derbyn adroddiad perfformiad ar Cefndy sy'n safle sy'n darparu cyfleoedd gwaith pwysig i bobl anabl a fyddai fel arall yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith. Mae Cefndy yn cynhyrchu amrywiol gymhorthion byw ac mae wedi bod mewn bodolaeth am oddeutu 40 mlynedd, gyda llawer o staff wedi gweithio yno ers nifer o flynyddoedd, cyfartaledd hyd gwasanaeth yw 17 mlynedd.   Nodwyd bod amhariad ac ansefydlogrwydd o ran cost i gadwyni cyflenwi mewn blynyddoedd diweddar wedi cynyddu cystadleurwydd Cefndy yn erbyn mewnforion ac wedi effeithio'n gadarnhaol ar werthiannau gyda chwsmeriaid hen a newydd.   Fodd bynnag, bu rhywfaint o bwysau cyllidebol na ellir ei ragweld yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys costau ynni ychwanegol, cynnydd uwch na'r disgwyl i gyflogau ac atgyweiriadau brys i adeiladau. Gwnaed gwaith dros y 18-24 mis blaenorol i sefydlogi'r gwasanaeth.  Roedd y pwyllgor wedi gofyn am adroddiad gwybodaeth bellach ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol bresennol (2022 i 2023) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar berfformiad Cefndy a derbyn eu hadroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer 2023 i 2024 yn yr haf 2024.

### Ysgol Gatholig Crist y Gair

Yn dilyn adroddiad Estyn wnaeth roi Ysgol Gatholig Crist y Gair o dan fesurau arbennig yr haf diwethaf, yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, roedd Craffu ar Berfformiad wedi derbyn diweddariad ar yr holl gamau a gymerwyd gan Wasanaeth Addysg y cyngor, Corff Llywodraethu'r Ysgol, yr Esgobaeth a GwE hyd yma, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg, a chyd Awdurdod Addysg Lleol a Chynllun Cefnogi GwE ar gyfer yr ysgol. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys penodi llywodraethwyr ychwanegol ar Gorff Llywodraethu'r Ysgol, penodi tîm arweinyddiaeth dros dro ar gyfer yr ysgol a darparu cefnogaeth ychwanegol i gynorthwyo i symud yr ysgol yn ei blaen.  Mae'r holl gamau hyn a'r mesurau a amlinellwyd yn y CGOA wedi'u derbyn gan Estyn ac mae darpariaeth y CGOA a chynlluniau gweithredu'r Awdurdod Addysg Lleol / GwE yn awr yn destun her a monitro rheolaidd.  Yn dilyn trafodaeth fanwl, roedd aelodau yn cefnogi ymdrechion pawb i fynd i'r afael ag argymhellion Estyn a gofynnwyd i adroddiad diweddaru gael ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Medi 2023.

## Rheoli Risg

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Mae'r rheoli risg yn disgrifio'r dull rydym wedi'i gynllunio i ddynodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu'r Cyngor.

### Cofrestr Risgiau Corfforaethol

Ar hyn o bryd mae gennym gyfanswm o 20 risg ar y gofrestr, 11 sydd yn anghyson gyda'n parodrwydd i dderbyn risg (55%).   Rydym wedi diweddaru ein cyflwyniad o'r gofrestr, sydd nawr yn cynnwys lliw a tueddiad risg.   Er nad yw sgôr risg wedi newid yn ddiweddar, mae'r risgiau rydym yn wynebu mewn rhai achosion yn parhau'n ddifrifol.  Bydd adolygiad Chwefror 2023 o'r gofrestr risg corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn Ebrill 2023.   Bydd yr adolygiad nesaf a drefnwyd ar gyfer ein cofrestr risg gorfforaethol yn dechrau o fis Medi 2023.

#### Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg

Ym mis Tachwedd, derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiweddariad ar gymhwyso methodoleg rheoli risg.  Roedd yr Aelodau'n cytuno i gymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Corfforaethol. Cafodd datganiad parodrwydd i dderbyn risg y cyngor ei adolygu a'i addasu ddiwethaf ym mis Tachwedd

2022. Parodrwydd ‘minimalistaidd’ y Cyngor i dderbyn risg mewn perthynas â’r Gweithlu: Cafodd telerau ac amodau eu llacio ychydig i barodrwydd ‘gofalus’ i dderbyn risg, i adlewyrchu’r ffordd rydym yn ‘hyblygu’ prosesau recriwtio – mewn ffordd ddiogel – i liniaru heriau wrth lenwi rolau. Mae pob agwedd arall ar ein datganiad parodrwydd i dderbyn risg wedi aros yr un fath.

**Polisi Risg Gwybodaeth**

Mae’r cyngor wedi drafftio Polisi Risg Gwybodaeth diwygiedig, a bydd yn ceisio cymeradwyaeth ar ei gyfer yn fuan.  Roedd y gofyniad i wasanaethau ystyried Risg Gwybodaeth fel rhan o’u Cynllunio Gwasanaeth ar gyfer 2023 i 2024 hefyd wedi’i gynnwys o fewn ein ‘Hanogwyr Cynllunio Gwasanaeth’, sydd bob amser yn cael eu rhannu gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr wrth ddatblygu cynlluniau gwasanaeth newydd. Mae gwasanaethau hefyd yn cael eu hannog i barhau i adolygu eu Cofrestrau Risg Gwasanaeth, a ddylai gasglu unrhyw risg gwybodaeth i wasanaethau.

## Cynllunio Gweithlu

Isod mae camau gwella sydd wedi’u nodi i gefnogi’r maes llywodraethu hwn. Mae cynllunio gweithlu yn golygu bod y broses ar gyfer dadansoddi, rhagweld a chynllunio cyflenwad a galw’r gweithlu ac asesu bylchau i sicrhau fod gennym y bobl a’r sgiliau - nawr ac yn y dyfodol - i ddarparu ein gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion strategol.

### Hyfforddiant, Datblygiad ac Iechyd Meddwl Staff

Mae adolygiad o’n polisi a chanllawiau gweithio’n hyblyg presennol yn gyflawn a derbyniwyd cymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Mae angen cyflwyno’r polisi i’r Cabinet i’w gymeradwyo.  Os caiff ei gymeradwyo, bydd yn cael ei weithredu o fis Mehefin 2023 ynghyd â chynllun cyfathrebu, deunydd cyfarfod sefydlu a sesiynau i gefnogi staff a rheolwyr gyda’r ffyrdd newydd o weithio.

Mae AD wedi penodi Arbenigwr Dysgu a Datblygu arweiniol i oruchwylio a chyflwyno'r cynllun gweithredu iechyd meddwl. Byddant yn gweithio ochr yn ochr â Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, unwaith y byddant yn eu lle, i sicrhau bod cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles wedi'i wreiddio ar draws y cyngor. Mae’r cynllun gweithredu yn cynnwys dau gam gweithredu sy’n weddill i gynnal arolwg a sefydlu cefnogwyr.

## Gwella'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu

Mae'r cam hwn yn cynnwys gwybodaeth am gydraddoldeb i gefnogi dadansoddiadau manylach mewn Adroddiadau Dyletswydd Sector Cyhoeddus yn y dyfodol. Erbyn diwedd Mawrth, roedd gennym wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer 71.5% o staff. Oherwydd newidiadau parhaus yn y staff, mae'r wybodaeth gydraddoldeb sydd gennym am ein gweithlu yn tueddu i amrywio. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi gwella'n fawr ers Mehefin 2022, pan oedd gennym wybodaeth ar gyfer 51.4% o'r staff.

## Cynllunio Gweithlu

Mae camau cynllunio'r gweithlu ar y gweill i symud ymlaen â chanfyddiadau adolygiadau cynllunio'r gweithlu ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth. Mae cryn dipyn o ganolbwyntio ar recriwtio, yn enwedig i rolau gofal cymdeithasol ac iechyd. Bydd diweddariad blynyddol yn cael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2023. Bydd proses cynllunio gweithlu newydd yn dechrau unwaith y bydd y strwythur uwch arweinyddiaeth newydd mewn lle yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Rydym yn gweithio i ddatblygu ein Strategaeth Iaith Gymraeg a'n Polisi Iaith Gymraeg, a fydd ill dau yn effeithio ar ddatblygu'r gweithlu a darparu gwasanaethau i gefnogi a chodi proffil y defnydd o'r Gymraeg o fewn y cyngor ac yn y gymuned ehangach. Mae'r polisi wedi'i gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Phwyllgor Llywio'r Gymraeg. Roedd disgwyl i'r Strategaeth a'r Polisi gael eu cymeradwyo a dechrau eu gweithredu o Ebrill 2023, ond ceisir cymeradwyaeth lawn gan y Cabinet ym mis Mehefin 2023.

Bydd adroddiad manwl ar recriwtio, cadw a chynllunio'r gweithlu ar draws y cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaeth AD ym mis Ionawr 2023. Cafodd yr adroddiad hwn ei ysgogi gan adroddiadau cynharach a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Tachwedd 2022, am yr adolygiad risg ym mis Medi 2022 ac adroddiad gwybodaeth am faterion recriwtio a chadw staff o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y Pwyllgor ei fod wedi'i sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol ac yn ymateb yn ddigonol i heriau mewn perthynas â recriwtio a chadw staff ac atgoffwyd yr Aelodau am adolygiad Archwilio Mewnol a drefnwyd a gynhelir yn y flwyddyn ariannol newydd (2023 i 2034).

### Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

Ym mis Ionawr, lansiodd y cyngor ymgyrch i ddenu pobl i yrfa o fewn Gofal Cymdeithasol, mewn rolau sy'n amrywio o iechyd a gofal cymdeithasol i arlwyo. Mae recriwtio mwy o staff o fewn gofal cymdeithasol yn hanfodol ar gyfer gwasanaethau effeithiol i bobl ddiamddiffyn ac mae'n rhan o ymdrechion ehangach i leihau risgiau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff o fewn gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych ac yn genedlaethol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda darpar weithwyr i ddileu unrhyw rwystrau at waith ac mae'n hybu'r diogelwch swyddi, buddion staff - fel cyfraddau tâl cystadleuol, cynllun pensiwn ardderchog, lwfans teithio a hawliad gwyliau blynyddol hael, ynghyd â chontractau ac oriau gwaith hyblyg - i ddenu staff newydd i'r rolau hanfodol hyn.

### Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Cydymffurfiaeth GDG

Mae recriwtio mwy diogel yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r cyngor. Roedd yr adnodd ychwanegol yn y tîm yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o adnewyddiadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Nid yw'r adnodd hwnnw bellach ar waith ac mae wedi'i ddisodli gyda dull busnes fel arfer. Mae monitro wythnosol gan Gynorthwywyr Adnoddau Dynol yn parhau ac mae adroddiadau ychwanegol wedi eu creu i gynorthwyo i fonitro perfformiad. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn cydymffurfiaeth i 92%, i fyny o 90% ers y cyfnod blaenorol. Mae'r 8% sy'n weddill ar y gweill ac mae'r rhesymau am eu statws oherwydd bod staff angen gweithredu tasg neu'n aros i'r broses GDG gael ei chwblhau a chynhyrchu'r dystysgrif.

Mae proses fonitro mwy anffurfiol yn cael ei pharatoi ac rydym yn atgoffa rheolwyr recriwtio am eu cyfrifoldebau o ran recriwtio mwy diogel; i sicrhau fod gan holl staff newydd yr holl wiriadau priodol ar waith cyn iddynt ddechrau. Mae cyfathrebu gyda gweithwyr newydd a rheolwyr wedi'i adolygu gan osod y gwiriadau recriwtio mwy diogel sydd angen eu cwblhau. Rydym yn disgwyl i'r cam hwn gael ei gwblhau o fewn y cyfnod nesaf.

## Asedau

Isod mae camau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Drwy asedau rydym yn cyfeirio at reoli ystâd y Cyngor (yn cynnwys adeiladau swyddfa ac isadeiledd priffyrdd sy'n berchen i a/neu'n cael ei reoli gan y Cyngor) ac asedau digidol.

### Strategaeth Rheoli Asedau

Mae cynnydd yn y maes hwn wedi parhau i gael ei effeithio gan ddiffyg capasiti o fewn y tîm. Mae aelod ychwanegol o staff wedi'i benodi ac rydym yn disgwyl i'r unigolyn hwnnw fod yn y swydd erbyn Mehefin 2023. Unwaith y bydd y strategaeth rheoli asedau newydd yn ei lle, byddwn yn datblygu ac yn cyflawni cynlluniau portffolio i bennu siâp, maint a defnydd asedau yn y dyfodol ar gyfer pob un o bortffolios rheoli asedau'r cyngor.

### Cam Gweithredu Her Gwasanaeth: Canolbwynt Cyfarfod Rhithiol

Nod y gwaith yw cefnogi cyfarfodydd rhithiol mewn ardaloedd lle bo cysylltiad band eang yn wael. Er ein bod wedi darparu isadeiledd band eang i safleoedd cymunedol i allu creu canolbwyntiau, nid yw cyllid ac adnoddau ar gael i ddatblygu'r cam hwn ymhellach ar hyn o bryd.

### Cefnogi Busnesau a Phartneriaid i Addasu

Fel yr amlinellir isod yn fwy manwl, un maes gwaith allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan weithio ar draws y cyngor, fydd gweithredu'r strategaeth gaffael newydd, unwaith y caiff ei chymeradwyo, i gyflawni datgarboneiddio ac egwyddorion Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a gofynion deddfwriaeth gaffael newydd Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn golygu gweithio ar draws y cyngor i gefnogi cadwyn gyflenwi leol Sir Ddinbych. Bydd y rôl arbenigwr caffael datgarboneiddio newydd yn hanfodol i gydlynu'r gefnogaeth hon. Mae yna gyfle yn y cyfamser i ddefnyddio'r deunydd a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fusnesau fel rhan o'r Adnodd Caffael Datgarboneiddio. Byddwn angen sicrhau bod yna eglurder gyntaf, i sicrhau bod yr adnodd yn cael ei gyflwyno fesul cam yn effeithiol. Blaenoriaeth benodol ar gyfer y flwyddyn fydd gweithio gyda chyflenwyr ar y Fframwaith Dylunio ac Argraffu i'w paratoi ar gyfer adrodd ar garbon o fis Ebrill 2024.

## Caffael

Isod mae camau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Caffael yw'r broses mae'r Cyngor yn ei defnyddio i ddiwallu ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau da i gymdeithas, diwylliant a'r economi, gan hefyd gyfrannu at ddatgarboneiddio ac adfer natur.

## Arbenigedd Caffael Datgarboneiddio

Mae'r Tîm Caffael wedi sicrhau cytundeb i recriwtio, ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint, arbenigwr datgarboneiddio newydd o fewn y tîm i fwrw ymlaen â datgarboneiddio yn ein caffaeliadau a'n cadwyn gyflenwi. Mae swydd Partner Busnes Caffael - Datgarboneiddio yn cael ei hysbysebu eto gyda dyddiad cau ar gyfer cais ym mis Mai 2023.

## Diogelu Bioamrywiaeth a Datgarboneiddio mewn Caffael

Mae problemau capasiti'n parhau ac mae'r rhain yn dal i gael effaith ar gyflymder y cynnydd mewn perthynas â'r gweithredoedd hyn. Fodd bynnag, yn gadarnhaol, mae Rheolwr Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru a Chaffael Cydweithredol wedi'i benodi ac mae wedi bod yn ei swydd ers Mawrth 2023. Roedd deiliad y swydd yn arfer bod yn Reolwr Canolbwynt Buddion Cymunedol.

Un maes gwaith allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan weithio ar draws y cyngor, fydd dechrau darparu gweithgareddau buddion caffael a chymunedol o fewn ein Cynllun Corfforaethol newydd; yn bennaf i weithredu'r strategaeth gaffael newydd, unwaith y caiff ei chymeradwyo, i gyflawni datgarboneiddio ac egwyddorion Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a gofynion deddfwriaeth gaffael newydd Llywodraeth y DU. Bydd hyn yn golygu gweithio ar draws y cyngor i gefnogi cadwyn gyflenwi leol Sir Ddinbych.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio a lansio Adnodd Caffael Datgarboneiddio, sy'n cynnwys cwestiynau cysylltiedig â charbon gan sector a lefel gwariant. Bydd yr arbenigwr caffael carboneiddio newydd yn arwain ar y gwaith hwn. Nid ydym wedi dechrau cefnogi busnesau a chyflenwyr yn Sir Ddinbych eto i annog ymarfer carbon isel ac eto bydd hyn yn ffocws allweddol ar gyfer yr arbenigwr caffael newydd.

Mae gostyngiad yn y milltiroedd a deithiwyd ar gyflenwi contract yn profi i fod yn heriol i'w fesur ac adrodd arno. Mae'r Hwb Buddion Cymunedol yn bwriadu adolygu'r dull o fesur yng ngoleuni Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

## Rheolau'r Weithdrefn Gontractau

Bydd Rheolau'r Weithdrefn Gontractau'n cael ei diweddaru i adlewyrchu deddfwriaeth newydd y DU ar Gaffael Cyhoeddus sydd i ddod i rym yn 2023 i 2024. Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd drwy'r adroddiad hwn yn y cyfamser.

## Camau Gwella

Isod mae camau gwella newydd sydd wedi cael eu nodi drwy'r adroddiad hwn:

- Diweddaru'r Canllaw Rheoli Perfformiad i adlewyrchu Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cynllun Corfforaethol newydd a threfniadau llywodraethu.